# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

# Gwybodaeth am y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant |
| Amcanion y cymhwyster | Cyflwyno dysgwyr i sectorau galwedigaethol drwy brofiadau dysgu hygyrch, ymarferol sy'n datblygu sgiliau sylfaenol, cefnogi datblygiad personol, a galluogi dilyniant i addysg a hyfforddiant pellach. |
| Cod Cymhwyster CBAC | |
| Rhif QiW | |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14-16, 16-19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd fersiwn diweddaraf y fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Chymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Rydym wedi ymrwymo i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yw eu strwythur unedol, sy’n caniatáu i’r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod modd rheoli cyflymder y dysgu, lleihau pwysau asesu, a chefnogi dilyniant cyson, ystyrlon.

Mae ein dull asesu hyblyg yn grymuso athrawon i greu gweithgareddau asesu ystyrlon sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, wrth sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd teg a phriodol i ddangos eu cyflawniadau. Mae'r cyfuniad o feini prawf asesu sydd wedi'u diffinio'n glir a thasgau y gellir addasu eu dyluniad yn hyrwyddo profiadau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi cynnydd, yn dathlu cryfderau unigol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae ein dull graddio sy'n digolledu yn cydnabod y gall dysgwyr berfformio'n wahanol ar draws y cymhwyster. Mae ein dull yn galluogi perfformiad cryf mewn un maes i wrthbwyso perfformiad gwannach mewn maes arall, gan gyfrannu at brofiad asesu tecach a mwy cefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer astudiaeth ôl-16.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ... 6
1.1. Pwrpas a nodau ... 6
1.2. Cwricwlwm i Gymru ... 6
1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ... 7
1.4. Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ... 8
1.5. Y defnydd o iaith ... 8
1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ... 9
2. Unedau ... 10
2.1. Fformat yr unedau ... 10
2.2. Bonion deilliannau dysgu ... 11
2.3. Cynnwys ... 11
2.4. Tasgau asesu ... 11
Uned 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r sector Gofal Plant, a Diogelu Sylfaenol ... 12
Uned 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion ... 24
Uned 3 Gofal Plant ... 37
3. Asesu ... 51
3.1. Tasgau asesu ... 51
3.2. Hyd yr asesiad ... 51
3.3. Gofynion tystiolaeth ... 52
3.5 Goruchwylio a dilysu ... 53
3.6 Marcio (dyfarniadau asesu) ... 53
3.7 Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli ... 54
3.8 Camymddwyn ... 55
4 Gwybodaeth dechnegol ... 56
4.1 Cofrestru ar gyfer unedau ... 56
4.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ... 56
4.3 Graddio ac adrodd yn ôl ... 57
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ... 59


© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| Uned 1: Cyflwyniad i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, a Diogelu Sylfaenol<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 12 awr<br>Asesiad yn y ganolfan wedi'i gymedroli gan CBAC |
| Dewis o naill ai:<br>Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 18 awr<br>Asesiad yn y ganolfan wedi'i gymedroli gan CBAC |
| **NEU: Uned 3: Gofal Plant**<br>**Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y ganolfan** |
| Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 18 awr<br>Asesiad yn y ganolfan wedi'i gymedroli gan CBAC |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae hwn yn gymhwyster dwy uned.

Dylid addysgu Uned 1 yn gyntaf – dyma'r uned ragarweiniol a sylfaen y cymhwyster. Gall canolfannau ddewis naill ai Uned 2 neu Uned 3 wedyn.

Bydd Uned 1 ar gael o haf 2028 ymlaen, gydag Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn haf 2029.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC wedi'u cynllunio i fodloni anghenion dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, gan gynnig profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cyfnod datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae'r Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cynnig cynnwys ac asesiadau deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i fod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae'r Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaeth ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau addysg neu hyfforddiant nesaf.

Mae'r Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cefnogi dysgwyr i:

- ddeall sylfaen datblygiad dynol, iechyd a llesiant
- darganfod sut mae gwasanaethau gofal a gofal plant yn helpu pobl
- deall am y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r dulliau sy'n arwain gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru
- dysgu am hawliau a pharch at bawb – archwilio cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth, a pham eu bod yn bwysig wrth ddarparu gofal a chefnogaeth.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw sail y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Mae'r egwyddorion cynnydd[1] yn ganolog i'r cynllun hwn, ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[2] ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn adran 2.3; Bydd gwybodaeth bellach ynghylch sut i integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster i'w chael yn y Canllawiau Addysgu.

[1] Iechyd a Lles: Egwyddorion cynnydd - Hwb
[2] Iechyd a Lles: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – Hwb

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

- gefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o ran Iechyd a Lles drwy roi cyfle i ddysgwyr:
  - deall ffactorau syml sy'n effeithio ar iechyd a llesiant gydol oes
  - datblygu ymddygiadau cadarnhaol drwy annog dysgwyr i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill mewn cyd-destun iechyd, gofal cymdeithasol, ac yng nghyd-destun gofal plant
  - archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu teimladau, a'u llesiant emosiynol eu hunain
  - adeiladu sgiliau meddwl sylfaenol i helpu dysgwyr i ystyried eu dewisiadau a sut y gall y rhain effeithio arnynt eu hunain ac eraill
  - deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar gymdeithas ehangach, yn awr ac yn y dyfodol.

- cefnogi egwyddorion cynnydd Iechyd a Lles drwy annog dysgwyr i:
  - datblygu annibyniaeth a hyder mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
  - adeiladu dealltwriaeth a gwybodaeth syml o syniadau allweddol am iechyd, llesiant, ac ymddygiad personol
  - gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar iechyd a llesiant a thestunau mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a chyd-destunau gofal plant
  - gwerthfawrogi anghenion eraill mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a lleoliadau gofal plant a deall sut y gall penderfyniadau a gweithredoedd effeithio ar bobl
  - dod yn fwy ymwybodol a chyfrifol ynghylch materion cymdeithasol
  - dysgu sut i siarad drostynt eu hunain ac eraill (eiriolaeth) mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofyniad ffurfiol ar gyfer dysgu blaenorol, mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 16 oed, sy'n gweithio ar lefel mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChCC). Mae'n adeiladu ar sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol a ddatblygwyd drwy brofiadau dysgu cynharach, fel arfer rhwng 3 a 14 oed.

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth hanfodol, sgiliau ymarferol, a hyder, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae hefyd yn paratoi dysgwyr ar gyfer dilyniant i astudiaethau pellach, neu gyflogaeth. Mae cynnwys Llwyddiant Lefel 1 yn cydnabod lefelau cyflawniad uwch ac yn darparu llwybr clir i gymwysterau Lefel 1/Lefel 2, gan gynnwys TAAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, gan gefnogi dilyniant parhaus a dyhead dysgwyr. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

## 1.4. Oriau Dysgu dan Arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith,Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant wedi'i gynllunio i'w gyflwyno o fewn 120 o oriau dysgu dan arweiniad (ODA). Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae maint y cynnwys sydd ym mhob uned yn rhoi syniad o'r ODA gofynnol ar gyfer pob uned.

| | ODA |
|---|---|
| Uned 1 | 48 awr |
| Uned 2 | 72 awr |
| Uned 3 | 72 awr |
| **Cyfansymiau** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Gan fod y Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso’r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu, gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach os yw hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei gynrychioli a'i gefnogi'n gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd fersiwn diweddaraf y fanyleb ar y wefan bob amser.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r fanyleb hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle y bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallent gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid y gofynion a fwriadwyd ar gyfer yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-Gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Dyma amcangyfrif o'r oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio o dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Trosolwg o'r uned | Dyma grynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth allweddol yr ymdrinnir â nhw, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Deilliannau Dysgu | Dyma restr o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth benodol y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r uned yn llwyddiannus. |
| Crynodeb o'r asesu | Dyma grynodeb o ddull gweithredu asesiadau'r uned.<br>Mae'r adran hon hefyd yn nodi faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau asesiadau. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Dyma fanylion y deunyddiau, yr offer, a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gynnal asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Dyma fanylion cysylltau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Dyma amlinelliad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddynt fodloni'r meini prawf asesu. |
| Meini prawf asesu | Dyma'r meini prawf penodol, arsylwadwy, a mesuradwy y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliant dysgu. Darperir pedwar gwahanol fand o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu gwahanol lefelau o allu dysgwyr. |
| Tasgau enghreifftiol | Dyma ystod o dasgau addas ar gyfer pob lefel o'r meini prawf asesu. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Dylai athrawon sicrhau bod gweithgareddau a thasgau asesu yn addas ar gyfer anghenion a gallu pob grŵp o ddysgwyr. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Maent yn tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau addysgu.<br><br>Ni fydd profiadau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 2.2. Bonion deilliannau dysgu

Ym manylebau Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC, defnyddir bonion deilliannau dysgu i nodi math a dyfnder y dysgu a ddisgwylir.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gwybod' pan ddisgwylir i ddysgwyr gofio ffeithiau syml neu wybod gwybodaeth allweddol.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn deall' pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud synnwyr o gysyniadau sylfaenol a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, â chefnogaeth.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gallu' pan ddisgwylir i ddysgwyr gyflawni tasgau ymarferol syml, dilyn cyfarwyddiadau, neu ddangos technegau sylfaenol.

Mae'r bonion hyn yn sicrhau bod canlyniadau'n hygyrch, yn gyraeddadwy, ac yn briodol i ddysgwyr sylfaen sy'n datblygu hyder mewn meysydd galwedigaethol.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob deilliant dysgu, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

## 2.4. Tasgau asesu

Darperir tasgau asesu enghreifftiol ar ddiwedd pob uned ynghyd ag unrhyw ofynion adnoddau penodol. Mae'r tasgau hyn wedi'u cynllunio i gydbwyso rhwyddineb, ymgysylltiad y dysgwr, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Gall canolfannau ddewis defnyddio'r tasgau hyn fel ag y maent, eu haddasu, neu ddatblygu rhai amgen eu hunain. Rhaid i dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan alluogi dysgwyr i fodloni'r holl feini prawf asesu cysylltiedig.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Uned 1 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r sector Gofal Plant, a Diogelu Sylfaenol

| | |
|---|---|
| ODA | 48 awr |
| | Mae'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant yn eang ac amrywiol; mae'r uned hon yn ymwneud â deall y sectorau a sut i gadw pobl yn ddiogel. Mae'n anelu at adeiladu gwybodaeth am leoliadau, rolau swyddi, a gwerthoedd, ochr yn ochr â phwysigrwydd diogelu. Bydd yn canolbwyntio ar y gwahanol fathau o ddarpariaeth a rolau o fewn y sectorau, pam mae'r sectorau yn bwysig ym mywydau pobl, ac egwyddorion allweddol gofal, megis parch, urddas a diogelwch. Hefyd, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o beth mae diogelu yn ei olygu, y mathau o gamdriniaethau, pam mae adrodd am bryderon yn bwysig, a ffyrdd syml o gadw pobl yn ddiogel, gan gynnwys hylendid a defnyddio offer yn ddiogel.<br>Bydd yr uned hon yn ymdrin â:<br>• gwahanol leoliadau a rolau swyddi yn y sectorau<br>• gwerthoedd allweddol: parch, urddas, gofal, diogelwch, cynhwysiant<br>• pam mae'r sectorau yn bwysig i lesiant a datblygiad<br>• cyfathrebu da a disgwyliadau sylfaenol ar gyfer gwaith<br>• hanfodion diogelu: beth mae'n ei olygu, mathau o gamdriniaethau, adrodd am bryderon, a chamau syml wrth gadw pobl yn ddiogel, megis hylendid a defnyddio offer yn ddiogel. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br>DD1.1 gwybod bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'u trefnu'n wahanol sectorau ac yn cynnwys ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddynt<br>DD1.2 gallu cyfathrebu'n effeithiol â phlant ac oedolion<br>DD1.3 gwybod ystyr y term diogelu ar gyfer oedolion a phlant a'r mathau a'r arwyddion o gam-drin ac esgeulustod<br>DD1.4 deall bod amrywiaeth o ffactorau yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesiadau'r uned hon yn cael eu cynnal drwy weithgareddau a osodir gan athrawon sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm o 12 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd asesu fel arfer yn dod o fewn yr ystod ddangosol o 9-12 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | Rhaid i ganolfannau gofnodi bras amcan o'r amser a dreuliodd pob dysgwr ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Nid oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer yr asesiad. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd:<br>• Gofalu am eraill<br>• Cymorth cyntaf sylfaenol<br>• Ffordd iach o fyw<br>• Iechyd meddwl a llesiant meddyliol<br>• Diogelwch personol<br>• Gwerthoedd bywyd<br>Sgiliau gwaith:<br>• Hawliau a chyfrifoldebau yn y gweithle<br>• Gweithio yng Nghymru<br>• Llesiant a gwaith. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD1.1<br>gwybod bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'u trefnu i wahanol sectorau ac yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddynt. | Sectorau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr ardal leol:<br>• sector iechyd: ysbytai, meddygfeydd meddygon teulu, clinigau, gwasanaethau iechyd cymunedol<br>• sector gofal cymdeithasol: cartrefi gofal preswyl, gofal cartref, canolfannau dydd, byw â chymorth<br>• sector gofal plant: meithrinfeydd, gwarchodwyr plant, lleoliadau blynyddoedd cynnar, clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth Dechrau'n Deg.<br><br>Dylai dysgwyr archwilio enghreifftiau o ddarpariaeth sector yn eu hardal leol.<br><br>Gwasanaethau lleol a rhanbarthol<br>• sector cyhoeddus: GIG, gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol<br>• sector preifat: ysbytai preifat, asiantaethau gofal, meithrinfeydd<br>• y sector gwirfoddol: elusennau, grwpiau cymunedol sy'n darparu gofal a chymorth.<br><br>Gweithwyr proffesiynol<br>• gweithwyr iechyd proffesiynol: Ymarferwyr Cyffredinol, nyrsys, gweithwyr iechyd proffesiynol cysylltiedig megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion cerddoriaeth/celf, podiatryddion a deietegwyr<br>• gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol: gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymorth<br>• gweithwyr gofal plant proffesiynol: ymarferwyr meithrin, addysgwyr blynyddoedd cynnar, gwarchodwyr plant.<br><br>Rolau a chyfrifoldebau sylfaenol<br>• darparu gofal a chymorth<br>• hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth<br>• diogelu unigolion<br>• gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.<br><br>Sgiliau, rhinweddau a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol, a gweithwyr gofal plant proffesiynol:<br>• gofalgar<br>• parchus<br>• gwaith tîm<br>• tosturi<br>• empathetig<br>• cyfathrebu effeithiol yn Gymraeg a Saesneg |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | • cadw amser da a chyflwyniad personol<br>• sgiliau meddal. |
| DD1.2<br>gallu cyfathrebu'n effeithiol â phlant ac oedolion. | Mae cyfathrebu yn hanfodol wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pob cam bywyd.<br>Sgiliau cyfathrebu sylfaenol yn Gymraeg neu Saesneg:<br>• defnyddio geiriau a chyfarchion cwrtais<br>• siarad yn glir ac ar gyflymder priodol<br>• gwrando'n ofalus a thalu sylw.<br><br>Cyfathrebu dieiriau:<br>• cyswllt llygaid, gwenu, ac iaith y corff gadarnhaol<br>• ystumiau a mynegiant wyneb i gefnogi dealltwriaeth.<br><br>Addasu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg:<br>• gweithredu'r Cynnig Rhagweithiol i ganiatáu cyfathrebu yn yr iaith sy'n cael ei ffafrio<br>• defnyddio iaith syml i blant neu unigolion ag anghenion ychwanegol<br>• siarad yn araf neu ailadrodd gwybodaeth pan fo angen<br>• defnyddio cymhorthion gweledol neu wrthrychau i helpu i esbonio.<br><br>Gwirio dealltwriaeth yn Gymraeg neu Saesneg:<br>• gofyn cwestiynau<br>• ailadrodd neu grynhoi'r hyn gafodd ei ddweud.<br><br>Cyfathrebu parchus:<br>• defnyddio enwau'n gywir<br>• gwrando heb dorri ar draws<br>• dangos empathi ac amynedd<br><br>Goresgyn rhwystrau:<br>• strategaethau ar gyfer gwahaniaethau iaith<br>• cefnogi unigolion ag anawsterau clyw neu leferydd. |
| DD1.3<br>gwybod y term diogelu i oedolion a phlant a'r mathau ac arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod. | Ystyr diogelu:<br>• amddiffyn oedolion a phlant rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod<br>• oedolyn sy'n wynebu risg yw unigolyn dros 18 oed sy'n profi neu sy'n agored i risgiau o gamdriniaeth<br>• plentyn sy'n wynebu risg yw plentyn sy'n profi neu sy'n agored i risgiau o gamdriniaeth.<br><br>Y pum prif fath o gamdriniaethau:<br>• corfforol – taro, smacio, slapio, brathu, cicio<br>• seicolegol – galw enwau, camdriniaeth geiriol, diystyru teimladau, gwawdio<br>• rhywiol – grwmio, camfanteisio rhywiol, cyffwrdd yn ddiangen, gorfodaeth i ymwneud â chynnwys rhywiol<br>• esgeulustod – methiant parhaus i fodloni anghenion sylfaenol unigolyn: bwyd/hylendid, |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | peidio â darparu dillad digonol, anwybyddu'n bwrpasol anghenion personol unigolyn<br><br>• ariannol (oedolion) – cymryd arian rhywun heb ei ganiatâd, peidio â chaniatáu i unigolyn gael mynediad i'w gyfrifon banc, derbyn rhoddion moethus yn gyfnewid am ofal.<br><br>Arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod:<br>• rhywun yn mynd yn encilgar/arwahanu<br>• newidiadau ymddygiadol anesboniadwy<br>• ymddangos yn orbryderus<br>• edrych yn flêr a brwnt/budr<br>• edrych fel nad ydynt wedi cael digon o faeth neu'n llwglyd<br>• anafiadau corfforol: archollion, cleisiau<br>• sefyllfa ariannol wedi newid yn sydyn. |
| DD1.4<br>deall bod llawer o wahanol ffactorau yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. | Ffactorau sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolion:<br><br>Ffactorau corfforol:<br>• deiet<br>• ymarfer corff<br>• cwsg.<br><br>Ffactorau cymdeithasol ac emosiynol:<br>• perthnasoedd ag eraill<br>• cyflyrau iechyd meddwl<br>• arwahanu cymdeithasol.<br><br>Ffactorau amgylcheddol:<br>• cyflwr tai<br>• llygredd aer<br>• addysg.<br><br>Ffactorau ffordd o fyw:<br>• cymeriant alcohol<br>• ysmygu/fepio<br>• camddefnyddio sylweddau.<br><br>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod:<br>• camdriniaeth/esgeulustod<br>• trais yn y cartref<br>• profedigaeth<br>• afiechyd meddwl rhieni. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **Deilliant Dysgu**<br><br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | **Pwyntiau a ddyfernir** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | |
| DD1.1<br>gwybod bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant wedi'u trefnu'n wahanol sectorau ac yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddynt. | 1.1.1<br>nodi un sector mewn iechyd, gofal cymdeithasol, neu ofal plant. | 1.1.1<br>paru pob sector â'r disgrifiad cywir. | 1.1.1<br>labelu sectorau ar ddiagram syml sy'n dangos iechyd, gofal cymdeithasol, a gofal plant. | 1.1.1<br>enwi tri sector ac o leiaf un gweithiwr proffesiynol o bob un. | /4 |
| | 1.1.2<br>nodi un gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. | 1.1.2<br>paru gweithwyr proffesiynol â'r sector cywir. | 1.1.2<br>rhoi dwy enghraifft o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu leoliad gofal plant. | 1.1.2<br>cysylltu un gweithiwr proffesiynol â'r math o wasanaeth mae'n ei ddarparu. | /4 |
| | 1.1.3<br>nodi un o rolau gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, neu ofal plant. | 1.1.3<br>nodi cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â rôl gweithiwr proffesiynol. | 1.1.3<br>rhestru dwy rôl a'u paru â chyfrifoldeb. | 1.1.3<br>enwi dwy rôl a rhoi cyfrifoldeb i bob un. | /4 |
| | 1.1.4<br>nodi o leiaf dair sgìl neu rinwedd a ddylai berthyn i weithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. | 1.1.4<br>paru'r sgiliau a'r rhinweddau â'r ddiffiniad cywir. | 1.1.4<br>trefnu diffiniadau o fewn grid sy'n nodi disgrifiadau o'r sgiliau a'r rhinweddau. | 1.1.4<br>adnabod gweithiwr proffesiynol allweddol a rhoi enghreifftiau o'u sgiliau a'u rhinweddau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD1.2<br>gallu cyfathrebu'n effeithiol â phlant ac oedolion. | 1.2.1<br>defnyddio cyfarchiad cwrtais wrth gyfarfod plentyn neu oedolyn. | 1.2.1<br>cynnal sgwrs fer ag oedolyn gan ddefnyddio iaith glir a pharchus. | 1.2.1<br>gwneud/cynhyrchu/creu cymhorthyn gweledol syml (er enghraifft, cerdyn llun) i helpu i esbonio rhywbeth i blentyn. | 1.2.1<br>cynllunio sut i addasu ffordd o gyfathrebu â phlentyn ac oedolyn â gwahanol anghenion. | /4 |
| | 1.2.2<br>defnyddio geiriau syml i ymateb i gwestiwn sylfaenol. | 1.2.2<br>dangos sgiliau gwrando drwy nodio ac ailadrodd yr hyn gafodd ei ddweud. | 1.2.2<br>cyflwyno enghraifft o sut i wirio dealltwriaeth. | 1.2.2<br>dylunio senario chwarae rôl byr sy'n dangos cyfathrebu effeithiol mewn lleoliad gofal. | /4 |
| | 1.2.3<br>dangos iaith y corff gadarnhaol. | 1.2.3<br>dangos sut i wirio dealltwriaeth drwy ofyn cwestiwn syml. | 1.2.3<br>defnyddio ystumiau neu luniau i gefnogi cyfathrebu wrth chwarae rôl. | 1.2.3<br>dangos enghraifft o addasu tôn ac iaith ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. | /4 |
| DD1.3<br>gwybod y term diogelu i oedolion a phlant a'r mathau ac arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod. | 1.3.1<br>paru diffiniadau â'r term cywir: diogelu; oedolyn sy'n wynebu risg a phlentyn sy'n wynebu risg. | 1.3.1<br>rhoi diffiniad ar gyfer diogelu. | 1.3.1<br>nodi'r diffiniadau o ddiogelu, plentyn sy'n wynebu risg ac oedolyn sy'n wynebu risg. | 1.3.1<br>nodi'r arwyddion a'r mathau o gamdriniaeth ac esgeulustod. | /4 |
| | 1.3.2<br>paru un math o gamdriniaeth ag enghraifft. | 1.3.2<br>rhoi dau arwydd a allai nodi camdriniaeth neu esgeulustod. | 1.3.2<br>labelu'r pum prif fath o gamdriniaeth ar ddiagram neu siart. | 1.3.2<br>nodi arwyddion a allai nodi gwahanol fathau o gamdriniaeth neu esgeulustod. | /4 |
| | 1.3.3<br>trefnu cardiau i wahanol gategorïau o dan y penawdau 'arwyddion o gamdriniaeth neu | 1.3.3<br>nodi tri arwydd sy'n gallu cael eu gweld mewn unigolyn os yw'n dioddef o | 1.3.3<br>nodi sut y gall gweithwyr proffesiynol adnabod arwyddion o gamdriniaeth | 1.3.3<br>nodi dangosyddion sy'n helpu gweithwyr proffesiynol i adnabod gwahanol fathau o | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | esgeulustod' a '**nid** yw'n arwydd o gamdriniaeth neu esgeulustod'. | gamdriniaeth neu esgeulustod. | neu esgeulustod mewn plentyn neu oedolyn. | gamdriniaeth neu esgeulustod. | |
| DD1.4<br>deall bod llawer o wahanol ffactorau yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. | 1.4.1<br>cwblhau tabl syml sy'n gofyn i ddysgwyr roi'r ffactorau cywir o dan y penawdau ffactorau corfforol, amgylcheddol a ffordd o fyw. | 1.4.1<br>disgrifio sut y gall un ffactor corfforol ddylanwadu ar iechyd. | 1.4.1<br>amlinellu ffactor ar gyfer pob pennawd (corfforol, amgylcheddol a ffordd o fyw) ac esbonio sut mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant unigolion. | 1.4.1<br>disgrifio o leiaf ddau ffactor ar gyfer pob pennawd (corfforol, amgylcheddol a ffordd o fyw) ac esbonio'r effeithiau y gall y ffactor ei gael ar iechyd a llesiant unigolion. | /4 |
| | 1.4.2<br>amlinellu ffactor cymdeithasol ac emosiynol. | 1.4.2<br>dewis dau ffactor cymdeithasol ac emosiynol o restr a rhoi enghraifft fer ar gyfer pob un. | 1.4.2<br>esbonio sut y gall ffactor cymdeithasol ac emosiynol effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. | 1.4.2<br>crynhoi'r ffactorau cymdeithasol ac emosiynol sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. | /4 |
| | 1.4.3<br>dewis y diffiniad cywir ar gyfer profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. | 1.4.3<br>amlinellu un profiad niweidiol yn ystod plentyndod a'i effaith bosibl. | 1.4.3<br>amlinellu effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. | 1.4.3<br>awgrymu o leiaf ddwy o effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac esbonio sut mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn. | /4 |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a ddyfarnwyd** | | x/52 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Enghreifftiau o dasgau

### DD1.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dewis a gwrthod: darllen datganiadau a dewis pa rai sy'n sectorau yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a gwrthod y lleill
- taith drwy oriel: cerdded drwy goridor gyda lluniau gwahanol weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol a nodi'r rhai sy'n staff iechyd a pha rai sy'n staff gofal cymdeithasol
- chwilio ar y we: defnyddio peiriant chwilio (yr athro i ddarparu cysylltau), ymchwilio i ba sgiliau a rhinweddau sy'n angenrheidiol i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chreu rhestr.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- gêm paru ryngweithiol: gweithgaredd i ganfod pa ddisgrifiad sy'n cyd-fynd â phob pennawd sector
- labelu lluniau: labelu lluniau o weithwyr proffesiynol gyda'r teitl swydd cywir
- gwylio a nodi: gwylio clip fideo o leoliad iechyd a gofal cymdeithasol a nodi un o gyfrifoldebau'r gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- llenwi'r bylchau: cwblhau taflen waith gyda bylchau ar ddiagram sector
- creu poster: hysbysu unigolion o'r gwahanol sectorau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- tasg lafar: dewis gweithiwr proffesiynol a nodi pa sgiliau a rhinweddau sydd eu hangen arnynt i weithio yn y rôl honno.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- tasg ysgrifenedig fer: ysgrifennu paragraff byr am y gwahanol weithwyr proffesiynol ym mhob sector
- map meddwl: creu map meddwl sy'n dangos i unigolion pa lwybrau gyrfa mae nhw'n gallu eu dilyn yn y sectorau
- creu a chyflwyno cyflwyniad: creu cyflwyniad ar y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen i weithio mewn rôl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

### DD1.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- cardiau i ymarfer cyfarch: y dysgwyr i ddewis un cerdyn llun (er enghraifft: plentyn, oedolyn, nyrs, rhiant) ac ymarfer dweud cyfarchiad cwrtais, syml
- gwrando ac ailadrodd: y dysgwyr i ddweud brawddeg syml wrth ei gilydd ("dyma dy gôt.") a bydd y lleill yn ei hailadrodd i ddangos eu bod wedi gwrando
- gêm adlewyrchu iaith y corff: y dysgwyr i gopïo iaith y corff gadarnhaol (gwenu, nodio, codi bawd).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- sgwrs rhwng dau: mewn parau, y dysgwyr i gymryd rhan mewn sgwrs fer wedi'i sgriptio, gan ddefnyddio iaith gwrtais (er enghraifft: "helo", "sut wyt ti?", "Dw i'n iawn, diolch")

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

- her gwrando gweithredol: y dysgwyr i wrando ar osodiad byr a nodio neu ailadrodd un gair allweddol (er enghraifft: apwyntiad am 3 o'r gloch)
- gofyn cwestiwn i wirio: y dysgwyr i ddewis un cerdyn cwestiwn (er enghraifft: “Ydych chi'n deall?", "allwch chi ddangos i mi?") ac ymarfer gofyn un.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- gwneud cymhorthyn gweledol syml: y dysgwyr i greu cerdyn llun i esbonio rhywbeth i blentyn (er enghraifft: “golchi dwylo", "amser byrbryd”)
- gwiriwr dealltwriaeth: y dysgwyr i esbonio sut y bydden nhw'n gwirio dealltwriaeth plentyn neu oedolyn – ar lafar neu gan ddefnyddio llun
- chwarae rôl wedi'i gefnogi gan ystumiau sy'n rhoi cyfarwyddiadau gan ddefnyddio ystumiau (er enghraifft: pwyntio, nodio) mewn senario syml.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- gweithgaredd chwarae rôl: dangos sut i gyfathrebu â phlentyn a sut i gyfathrebu ag oedolyn
- gweithgaredd creadigol: dylunio taflen a fyddai'n gallu cael ei defnyddio gan staff mewn lleoliad gofal sy'n esbonio'n glir sut i gyfathrebu'n effeithiol a sut y dylid ei ddefnyddio
- holi ac ateb: ateb cwestiynau sy'n dangos dealltwriaeth o gyfathrebu amrywiol a sut y gellir ei addasu ar gyfer gwahanol unigolion.

### DD1.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):
- gweithgaredd paru: paru'r diffiniad cywir â'r term cywir (diogelu, oedolyn sy'n wynebu risg a phlentyn sy'n wynebu risg)
- nodi: gan ddefnyddio wal eiriau, nodi'r mathau o gamdriniaethau
- dewis a gwrthod: nodi'r holl osodiadau sy'n arwyddion o gamdriniaeth a gwrthod y rhai nad ydynt.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):
- nodi: darllen rhestr o arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod a threfnu pob un i'r categori cywir (corfforol, seicolegol, rhywiol, esgeulustod neu ariannol)
- gweithgaredd creadigol: creu map meddwl sy'n dangos gwahanol arwyddion y gallai plentyn neu oedolyn eu dangos os ydynt yn profi camdriniaeth neu esgeulustod
- poster: creu poster sy'n dangos y pum math o gamdriniaeth ac o leiaf ddau arwydd ar gyfer pob un.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- llenwi'r bylchau: llenwi bylchau mewn diffiniadau (diogelu, oedolyn sy'n wynebu risg a phlentyn sy'n wynebu risg)
- chwilio ar y we: gyda chefnogaeth peiriant chwilio, creu taflen sy'n hysbysu unigolion o'r pum prif fath o gamdriniaeth
- tasg ysgrifenedig: ysgrifennu paragraff byr yn nodi sut y gall gweithwyr proffesiynol adnabod gwahanol fathau o gamdriniaethau ac esgeulustod.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- adroddiad: ysgrifennu adroddiad byr sy'n nodi'r gwahanol fathau o gamdriniaethau a sut maent yn gallu cael eu hadnabod

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

- cyflwyniad: cyflwyno cyflwyniad sy'n esbonio sut y gall gweithwyr proffesiynol adnabod dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod
- darllen: darllen astudiaeth achos ac adnabod y gwahanol fathau o gamdriniaethau, yr arwyddion, a sut mae hynny i'w weld yn ymddygiad neu ymddangosiad unigolyn.

### DD1.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):
- gêm ryngweithiol: paru'r ffactor â'r pennawd cywir (corfforol, cymdeithasol ac emosiynol, amgylcheddol a ffordd o fyw)
- gweithgaredd llafar: nodi ffactor o bob pennawd ar lafar
- dewis a gwrthod: dewis y diffiniad cywir ar gyfer 'profiadau niweidiol yn ystod plentyndod'.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):
- labelu lluniau: labelu pob llun gyda'r ffactor cywir
- tasg ysgrifenedig: dewis ffactor o bob maes ac ysgrifennu brawddeg fer yn esbonio sut y gall effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn
- siarad: dweud beth yw ystyr profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a nodi rhai o'u heffeithiau ar iechyd a llesiant unigolion.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- cardiau llun: gan ddefnyddio cardiau llun fel sbardun, disgrifio pob ffactor
- trefnu ac esbonio cardiau: gan ddefnyddio cardiau llun neu air, dewis ffactor cymdeithasol neu emosiynol ac esbonio sut y gallai effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn
- rhestru: creu rhestr neu fap meddwl o effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- blog: ysgrifennu blog ar sut y gall ffactorau ffordd o fyw effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn
- cyflwyniad: creu cyflwyniad ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n esbonio'r effeithiau ar iechyd a llesiant unigolyn
- cwblhau tabl sy'n cymharu sut mae ffactorau corfforol, emosiynol, amgylcheddol a ffordd o fyw yn effeithio ar iechyd a llesiant dau unigolyn gwahanol.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- archwilio'r ddarpariaeth a'r gwasanaethau lleol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant er mwyn gwneud cysylltiadau sy'n cryfhau'r ymdeimlad o gynefin
- archwilio cyfleoedd gyrfa o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- rhyngweithio a gwrando'n uniongyrchol ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, a gweithwyr gofal plant proffesiynol, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, er mwyn meithrin gwerthfawrogiad o'u profiadau o weithio yn y sectorau
- datblygu sgiliau cydweithio a gwaith tîm drwy weithio gydag eraill a dysgu oddi wrthynt.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

© WJEC CBAC Ltd. 2026
DRAFT

Gwelir pa gyfleoedd sydd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol yn Atodiad A. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Uned 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Trosolwg o'r uned | Mae sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion yn cefnogi pobl sydd ag amrywiaeth eang o anghenion; mae'r uned hon yn ymdrin â deall gofal oedolion a datblygu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i ddarparu cymorth diogel ac effeithiol. Mae'n anelu at adeiladu gwybodaeth am anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol oedolion, a sut i ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd gofal bob dydd. Bydd yn canolbwyntio ar ddehongli senarios gofal syml, cydnabod risgiau, a chymhwyso arferion diogel. Hefyd, bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ymarferol megis golchi dwylo, cynorthwyo gyda symud, a chefnogi arferion dyddiol, gan ddeall rolau, cyfrifoldebau a ffiniau wrth ofalu am oedolion. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br>DD2.1 gwybod am wahanol anghenion gofal oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol<br>DD2.2 gwybod am rolau a chyfrifoldebau gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion<br>DD2.3 gallu dangos sgiliau cyfranogiad gweithredol<br>DD2.4 deall pam y gallai oedolion fod angen cymorth a deall sut mae cynllunio datblygiad personol yn helpu i fodloni anghenion unigol<br>DD2.5 gallu dangos sgiliau gofal sylfaenol mewn hylendid, bwyta'n iach a chyfathrebu. |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesiadau'r uned hon yn cael eu cynnal drwy weithgareddau a osodir gan athrawon, gan alluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm o 18 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd asesu fel arfer yn digwydd o fewn yr ystod ddangosol o 14 – 18 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi bras amcan o'r amser a dreuliodd pob dysgwr ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at adnoddau sylfaenol, realistig neu rai ffug sy'n efelychu, er mwyn iddynt allu dangos gofynion ymarferol yr uned.<br>O leiaf, dylai canolfannau ddarparu:<br><br>• sinc neu le golchi dwylo, gyda sebon a thywelion papur neu weips |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | • adnoddau syml i gefnogi tasgau gofal sylfaenol, megis cwpanau, platiau, cyllyll a ffyrc, siartiau trefn arferol neu eitemau bob dydd tebyg<br>• deunyddiau (go iawn neu rai ffug sy'n efelychu) i gefnogi gweithgareddau bwyta'n iach, megis modelau o fwydydd, lluniau bwyd, neu gynhwysion sylfaenol<br>• lle ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl sy'n efelychu senarios gofal oedolion<br>• mynediad at ddyfais ddigidol (tabled, gliniadur neu debyg) lle mae tasgau'n cynnwys cyfranogiad digidol.<br><br>Gall canolfannau ddefnyddio adnoddau go iawn neu rai ffug sy'n efelychu, yn dibynnu a ydynt ar gael, ac yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr.<br>Nid oes angen offer arbenigol. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd:<br>• Gofalu am eraill<br>• Cymorth cyntaf sylfaenol<br>• Ffordd iach o fyw<br>• Iechyd meddwl a llesiant meddyliol<br>• Diogelwch personol<br>• Gwerthoedd bywyd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| DD2.1<br>gwybod am wahanol anghenion oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | Bydd gan oedolion anghenion gofal gwahanol drwy gydol eu bywydau, mae'r rhain wedi'u rhannu i gategorïau *PILES* yn Saesneg (sy'n sefyll am *Physical, Intellectual, Language, Emotional* a *Social*):<br>• ffisegol – yn ymwneud â'r corff<br>• deallusol – yn ymwneud â'r meddwl<br>• iaith – yn ymwneud â lleferydd a chyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg<br>• emosiynol – yn ymwneud ag emosiynau<br>• cymdeithasol – yn ymwneud â pherthnasoedd.<br><br>Anghenion gofal i oedolion:<br>• corfforol – bwyta deiet iach, ymarfer corff rheolaidd, arferion hylendid da<br>• deallusol – atal amhariad gwybyddol, cadw'r meddwl yn weithgar, derbyn addysg neu weithio<br>• iaith – dulliau cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg<br>• emosiynol – cariad a pherthyn, hunan-barch, llesiant meddyliol, ymlyniadau diogel<br>• cymdeithasol – perthnasoedd, cefnogaeth gan eraill.<br><br>Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion:<br>• gwasanaethau gofal cymdeithasol perthynol<br>• gwasanaethau gofal<br>• gwasanaethau deintyddol<br>• gwasanaethau nyrs ardal<br>• gwasanaethau canolfannau iechyd/meddygon teulu<br>• gwasanaethau ysbyty – ymgynghoriaeth<br>• gwasanaethau iechyd meddwl<br>• gwasanaethau optegydd<br>• gwasanaethau cymdeithasol. |
| DD2.2<br>gwybod beth yw rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion. | Rolau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol:<br>• gofalwr/cynorthwyydd byw cefnogol<br>• ymgynghorydd<br>• cwnselydd<br>• deintydd<br>• deietegydd<br>• meddyg teulu<br>• therapydd cerddoriaeth/celf<br>• nyrs<br>• therapydd iechyd galwedigaethol<br>• optegydd<br>• ffisiotherapydd<br>• podiatregydd<br>• seicolegydd<br>• gweithiwr cymdeithasol<br>• therapydd iaith a lleferydd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | Cyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i fodloni gwahanol anghenion:<br>• yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant: trin unigolion yn deg, parchu gwahaniaethau, a chael gwared ar rwystrau<br>• darperir gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau: cefnogi unigolion i gyflawni nodau y cytunwyd arnynt, megis gwella llesiant, diogelwch, annibyniaeth, neu adferiad<br>• darperir gofal person-ganolog: gwrando ar unigolion, parchu dewisiadau, eu cynnwys mewn penderfyniadau, a theilwra gofal i gyd-fynd â'u dewisiadau<br>• bodlonir anghenion diogelu: sicrhau canlyniadau cadarnhaol, megis diogelwch, llesiant ac amddiffyn rhag niwed. |
| DD2.3<br>gallu dangos sgiliau cyfranogiad gweithredol. | Mae cyfranogiad gweithredol yn:<br>• grymuso unigolion<br>• annog annibyniaeth (yn caniatáu llais, dewis a rheolaeth)<br>• gwella iechyd meddwl a llesiant meddyliol<br>• meithrin hyder a hunan-barch<br>• gwella ansawdd bywyd<br>drwy:<br>• ddefnyddio dulliau person-ganolog<br>• cynnig dewisiadau mewn gweithgareddau dyddiol<br>• annog gwneud penderfyniadau<br>• cynhwysiant digidol<br>• addasu cyfathrebu i anghenion unigol. |
| DD2.4<br>deall pam y gallai oedolion fod angen cymorth a deall sut mae cynllunio datblygiad personol yn helpu i fodloni anghenion unigol. | Efallai y bydd angen cymorth ar oedolion a dylai'r gofal fod yn berson-ganolog.<br><br>Efallai y bydd angen cymorth ar oedolion oherwydd:<br>• oedran<br>• anabledd<br>• cyflwr iechyd tymor hir<br>• pryderon iechyd meddwl.<br><br>Mae cynlluniau datblygu personol ar gyfer oedolyn sy'n derbyn gofal iechyd a chymdeithasol yn canolbwyntio ar:<br>• asesiad o gryfderau a gwendidau presennol<br>• nodau personol<br>• beth sy'n bwysig iddynt fel unigolyn – sgwrs am 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. |
| DD2.5<br>gallu dangos sgiliau gofal sylfaenol mewn hylendid, bwyta'n iach a chyfathrebu. | Sgiliau gofal sylfaenol mewn hylendid, bwyta'n iach a chyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion:<br>• golchi dwylo yn ôl canllawiau'r GIG<br>• dewis pryd iach sy'n dilyn 'Y Canllaw Bwyta'n Dda’ |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • cyfathrebu'n effeithiol gan gynnwys gwrando gweithredol a siarad yn glir yn Gymraeg neu Saesneg. |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| **Deilliant Dysgu**<br><br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr:** | | | | **Pwyntiau a ddyfernir** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 heb ddim cefnogaeth o gwbl: (4 pwynt)** | |
| DD2.1<br>gwybod am wahanol anghenion oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | 2.1.1<br>paru'r diffiniad *PILES* â'r term cywir. | 2.1.1<br>labelu ystyr pob un o'r termau *PILES*. | 2.1.1<br>enwi pob term *PILES*. | 2.1.1<br>nodi'r gwahaniaeth rhwng anghenion corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol. | /4 |
| | 2.1.2<br>nodi beth yw ystyr y term 'angen gofal'. | 2.1.2<br>nodi un enghraifft o angen gofal ar gyfer pob maes *PILES*. | 2.1.2<br>rhoi dwy enghraifft o angen gofal ar gyfer pob maes *PILES*. | 2.1.2<br>nodi un angen gofal a rhoi enghraifft o wasanaeth sydd ar gael i oedolyn gael cymorth gyda hyn. | /4 |
| | 2.1.3<br>enwi un gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i oedolyn. | 2.1.3<br>rhestru o leiaf dri o wahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | 2.1.3<br>trefnu amrywiaeth o wasanaethau iechyd a chymdeithasol yn sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol. | 2.1.3<br>nodi dau wasanaeth o'r sector iechyd a dau wasanaeth o'r sector gofal cymdeithasol. | /4 |
| | 2.1.4<br>paru lluniau sy'n dangos gwahanol anghenion gofal oedolion yn ystod oedrannau amrywiol (er enghraifft, oedolyn ifanc *vs* oedolyn hŷn). | 2.1.4<br>nodi un ffordd y mae anghenion gofal oedolion yn newid wrth i bobl fynd yn hŷn. | 2.1.4<br>nodi sut y gall anghenion gofal oedolyn newid dros amser. | 2.1.4<br>nodi pam mae anghenion gofal oedolion yn newid a rhoi enghraifft o wasanaeth a allai gefnogi hyn. | /4 |
| DD2.2 | 2.2.1 | 2.2.1 | 2.2.1 | 2.2.1 | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| gwybod beth yw rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion. | paru rôl swydd a llun. | nodi tri gweithiwr iechyd a/neu weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol a allai weithio gydag oedolion. | trefnu amrywiaeth o rolau yn ôl sector iechyd neu sector gofal cymdeithasol. | nodi dwy rôl o'r sector iechyd a dwy rôl o'r sector gofal cymdeithasol. | /4 |
| | 2.2.2<br>paru diffiniad cywir cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | 2.2.2<br>nodi un o gyfrifoldebau gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | 2.2.2<br>enwi dau o gyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | 2.2.2<br>labelu rhannau o gynllun gofal sy'n dangos cydraddoldeb, amrywiaeth a/neu gynhwysiant. | /4 |
| | 2.2.3<br>nodi un enghraifft o ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau mewn senario syml. | 2.2.3<br>rhestru dau o gyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion sy'n gysylltiedig â gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. | 2.2.3<br>labelu rhannau o gynllun gofal sy'n dangos nodau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. | 2.2.3<br>rhestru sut mae nodau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael eu dangos mewn cynllun gofal. | /4 |
| | 2.2.4<br>nodi un o gyfrifoldebau gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wrth ddarparu gofal person-ganolog. | 2.2.4<br>rhestru dau o gyfrifoldebau sy'n cefnogi gofal person-ganolog. | 2.2.4<br>labelu rhannau o gynllun gofal sy'n dangos nodau person-ganolog. | 2.2.4<br>nodi sut mae nodau person-ganolog yn cael eu dangos mewn cynllun gofal. | /4 |
| | 2.2.5 | 2.2.5 | 2.2.5 | 2.2.5 | |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | nodi un enghraifft o ddiogelu unigolyn mewn senario syml. | paru cyfrifoldebau diogelu ag enghreifftiau. | rhoi dwy enghraifft o sut mae gweithwyr proffesiynol yn diogelu unigolion yn ymarferol. | cysylltu cyfrifoldebau diogelu â chanlyniadau penodol i unigolion. | /4 |
| DD2.3<br>gallu dangos sgiliau cyfranogiad gweithredol. | 2.3.1<br>dangos sut y gall gweithgareddau wella iechyd meddwl oedolyn. | 2.3.1<br>cyflwyno syniadau yn ymwneud á sut i rymuso unigolyn. | 2.3.1<br>cynllunio gweithgaredd sy'n annog annibyniaeth ymysg oedolion. | 2.3.1<br>dangos sut mae llais, dewis a rheolaeth o fudd i unigolyn. | /4 |
| | 2.3.2<br>defnyddio offeryn digidol gyda chefnogaeth i gymryd rhan mewn gweithgaredd syml (er enghraifft: pwyso symbol, dewis llun ar dabled). | 2.3.2<br>dangos sut y gall offeryn digidol helpu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd dyddiol (er enghraifft, dewis prydau bwyd, dewis cerddoriaeth, defnyddio ap cyfathrebu). | 2.3.2<br>defnyddio offeryn digidol i gefnogi dewis, cyfathrebiad, neu gyfranogiad oedolyn mewn gweithgaredd. | 2.3.2<br>dangos sut mae offeryn digidol yn cynyddu annibyniaeth, dewis neu reolaeth oedolyn o fewn cyfranogiad gweithredol. | /4 |
| DD2.4<br>deall pam y gallai oedolion fod angen cymorth, a deall sut mae cynllunio datblygiad personol yn helpu i fodloni anghenion unigol. | 2.4.1<br>amlinellu un rheswm pam mae oedolyn efallai angen cymorth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | 2.4.1<br>cwblhau map meddwl sy'n nodi rhesymau pam y gall fod angen cymorth ar oedolion. | 2.4.1<br>disgrifio pam y gall fod angen cymorth ar oedolion gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | 2.4.1<br>dewis gwasanaeth o un maes a disgrifio sut y gall ddarparu cymorth i oedolyn. | /4 |
| | 2.4.2<br>dewis y diffiniad cywir o ofal person-ganolog. | 2.4.2<br>amlinellu ystyr gofal person-ganolog. | 2.4.2<br>disgrifio gofal person-ganolog. | 2.4.2<br>esbonio pam mae gofal person-ganolog yn bwysig wrth ofalu am oedolyn. | /4 |
| | 2.4.3 | 2.4.3<br>disgrifio cynllun datblygiad personol. | 2.4.3 | 2.4.3 | /4 |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | dewis y diffiniad cywir o gynllun datblygu personol. | | amlinellu pam mae unigolyn efallai angen cynllun datblygiad personol. | cwblhau cynllun datblygiad personol gan ddefnyddio astudiaeth achos. | |
| DD2.5<br>gallu dangos sgiliau gofal sylfaenol mewn hylendid, bwyta'n iach a chyfathrebu. | 2.5.1<br>paru lluniau o olchi dwylo gyda'r disgrifiad cywir. | 2.5.1<br>dangos sut i olchi dwylo gan ddilyn canllawiau'r GIG i gynorthwyo. | 2.5.1<br>dangos i'r athro sut i olchi dwylo yn unol â chanllawiau'r GIG (heb gymorth). | 2.5.1<br>cyflwyno sut i olchi dwylo yn unol â chanllawiau'r GIG i gyfoedion. | /4 |
| | 2.5.2<br>labelu gwahanol adrannau'r Canllaw Bwyta'n Dda. | 2.5.2<br>defnyddio'r Canllaw Bwyta'n Dda i ddylunio poster sy'n hysbysebu bwyta'n iach i oedolion. | 2.5.2<br>cynllunio pryd iach i oedolyn gan ddilyn y Canllaw Bwyta'n Dda. | 2.5.2<br>defnyddio'r Canllaw Bwyta'n Dda i gyflwyno'ch cynhwysion yn y categori maetholion cywir. | /4 |
| | 2.5.3<br>dangos un ffordd o gyfathrebu'n effeithiol. | 2.5.3<br>creu poster i ddangos gwahanol ffyrdd o gyfathrebu. | 2.5.3<br>cynllunio gweithgaredd chwarae rôl sy'n dangos sut i gyfathrebu'n effeithiol mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. | 2.5.3<br>cyflwyno'r perfformiad chwarae rôl i gyfoedion er mwyn dangos sut i gyfathrebu'n effeithiol mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. | /4<br><br>/4 |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a ddyfarnwyd** | | x/68 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Enghreifftiau o dasgau

### DD2.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- gemau paru rhyngweithiol: paru'r diffiniad â’r term cywir
- gweithgaredd dewis lluosog: dewis y diffiniad cywir ar gyfer yr angen gofal perthnasol
- gweithgaredd dewis a dethol: dewis, o ddetholiad o luniau, pa wasanaethau iechyd sy'n addas i oedolyn.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- llenwi'r bylchau: paru'r diffiniadau â'r maes cywir (corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol)
- gweithgaredd trefnu cardiau: paru'r anghenion gofal â'r meysydd iechyd a llesiant cywir (corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol)
- grid trefnu: trefnu'r gwasanaethau o dan y penawdau cywir (gofal iechyd a gofal cymdeithasol).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- labelu: labelu'r maes *PILES* cywir (corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol) á diffiniad
- gweithgaredd trefnu: trefnu amrywiaeth o wasanaethau i oedolion i'r categori cywir: gwasanaethau iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol
- map meddwl: creu map meddwl sy'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- cyflwyniad/araith: esbonio'r diffiniad o bob maes *PILES*
- gweithgaredd astudiaeth achos: darllen astudiaeth achos unigolyn sydd ag anghenion gofal sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac ysgrifennu brawddegau byr sy'n nodi'r anghenion gofal o fewn yr astudiaeth achos
- cynhyrchu taflen: esbonio'r gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael i oedolion yng Nghymru.

### DD2.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- trefnu: trefnu delweddau o rolau swyddi i'r teitl cywir
- gêm ryngweithiol: dewis y diffiniad cywir ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- ticio'r pwrpas: dewis pwrpas gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o amrywiaeth o ddiffiniadau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- gweithgaredd paru lluniau: paru llun o rôl swydd â'r teitl cywir
- gweithgaredd rhestru: rhestru nifer o gyfrifoldebau allweddol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- dewis a gwrthod: ticio'r gosodiadau cywir sy'n disgrifio diogelu a phwysigrwydd diogelu unigolion wrth weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- chwilio ar y we (gyda pheiriant chwilio): ymchwilio i gyfrifoldebau allweddol dwy rôl ar gyfer gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
- cyflwyniad: hysbysu unigolion am ystyr gofal person-ganolog sy'n gysylltiedig â chynlluniau gofal
- gweithgaredd ysgrifenedig: ysgrifennu paragraff byr sy'n esbonio'n glir bwysigrwydd diogelu.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- darparu crynodeb: dewis un gweithiwr proffesiynol ym maes iechyd ac un gweithiwr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol, ac esbonio'u rolau a'u cyfrifoldebau allweddol
- adroddiad ysgrifenedig: ysgrifennu adroddiad byr sy'n esbonio pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- gweithgaredd darllen: darllen astudiaeth achos a llenwi cynllun gofal drafft
- tasg holi ac ateb: ateb cyfres o gwestiynau ynghylch diogelu oedolion mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

## DD2.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- chwarae rôl gydag anogaeth: chwarae rôl dysgwr ac athro yn dewis gweithgaredd gyda'i gilydd i gefnogi llesiant
- cyfranogiad rhyngweithiol: ymuno â gweithgaredd tawel (ymestyn, ymarfer anadlu, crefftau syml) ac yna nodi (ar lafar neu gyda symbolau) sut roedd yn gwneud iddynt deimlo
- arddangosiad o weithgaredd dan arweiniad: y dysgwyr i ddewis cerdyn gyda llun/offeryn digidol (er enghraifft, mynd am dro, gwrando ar gerddoriaeth, lluniadu) cyn actio neu ddynwared y gweithgaredd. yna bydd y dysgwyr yn dweud ar lafar (neu'n dewis) sut mae'r gweithgaredd yn helpu iechyd meddwl (er enghraifft, "gwneud i chi ymdawelu").

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- chwarae rôl: cynnig dewisiadau – y dysgwyr i ymarfer cynnig dewisiadau i bartner, naill ai ar lafar neu'n ddigidol ("Hoffech chi A neu B?") i ddangos grymuso
- cylch trafod mewn grŵp: y dysgwyr i rannu un syniad ynghylch sut i annog llais, dewis a rheolaeth (siarad, defnyddio byrddau dewis, holi am hoff ddewisiadau)
- paru yn seiliedig ar senario: ar ól derbyn senario syml (er enghraifft, oedolyn yn dewis prydau bwyd); y dysgwr i nodi ffyrdd y gallent gael eu grymuso drwy ddefnyddio llais, dewis a rheolaeth.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- taflen waith cynllunio gweithgareddau: y dysgwyr i gynllunio gweithgaredd syml sy'n canolbwyntio ar annibyniaeth, er enghraifft: dewis dillad, paratoi byrbryd, defnyddio dyfais ddigidol yn ddiogel, gwneud amserlen ddyddiol – gan gwblhau awgrymiadau – beth yw'r gweithgaredd hwn? Pa ddewisiadau mae unigolyn yn gallu eu gwneud? Sut mae hyn yn annog annibyniaeth?
- cynllunio canllaw cam wrth gam: creu dilyniant syml (o luniau neu eiriau) sy'n dangos sut mae oedolyn yn gallu cwblhau'r gweithgaredd yn annibynnol
- cynllunio gweithgaredd syml sy'n cefnogi annibyniaeth oedolyn (er enghraifft: dewis prydau bwyd, defnyddio offer digidol, dewis dillad).

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- chwarae rôl: actio senario gyda, a heb, lais/dewis/rheolaeth, yna esbonio budd yr ail fersiwn i'r oedolyn
- dylunio astudiaeth achos fechan: y dysgwr i greu astudiaeth achos fer sy'n dangos sut mae gweithiwr proffesiynol yn defnyddio llais/dewis/rheolaeth ac esbonio'r manteision
- arsylwi a myfyrio: gwylio clip byr (neu senario) lle dangosir cyfranogiad gweithredol, yna disgrifio'n annibynnol sut mae hyn o fudd i'r unigolyn.

## DD2.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dewis diffiniadau: dewis y diffiniadau cywir ar gyfer cynllun gofal person-ganolog a chynllun datblygiad personol
- trefnu cardiau lluniau: trefnu cardiau yn ddau bentwr gyda'r penawdau canlynol 'rheswm dros fod angen cefnogaeth' a 'nid yw'n rheswm dros fod angen cefnogaeth'
- chwilio ar y we: ymchwilio i wasanaeth a rhestru ffyrdd y gall gefnogi oedolyn.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- trafodaeth: trafod ystyron cynllun gofal person-ganolog a chynllun datblygiad personol gyda phartner
- map meddwl: creu map meddwl sy'n nodi'n glir pam mae rhai pobl angen cymorth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- dewis a gwrthod: gweithio gyda phecyn o gardiau yn dewis y rhesymau pam y byddai unigolyn angen cynllun datblygiad personol efallai.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- paragraff ysgrifenedig: ysgrifennu paragraff sy'n esbonio pam y byddai oedolion angen cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol efallai
- rhestru: rhestru ystod o resymau sy'n esbonio pam mae gofal person-ganolog yn bwysig mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- cardiau senario: penderfynu pa unigolion sydd angen cynllun datblygiad personol a pha rai sydd ddim.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- dewis gwasanaeth ac esbonio sut mae'r gwasanaeth hwn yn bodloni anghenion oedolyn
- gweithgaredd darllen: darllen yr astudiaeth achos a nodi pam mae angen cymorth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar yr unigolyn
- creu: creu cynllun datblygiad personol yn seiliedig ar unigolyn arall a'i gyflwyno i bartner.

## DD2.5

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- ymarfer golchi dwylo dan arweiniad: y dysgwyr i gopïo'r athro yn golchi dwylo, gan ddilyn pob cam gyda'i gilydd
- gweithgaredd trefnu: y dysgwyr i drefnu lluniau o fwydydd i adrannau "plât iach" (ffrwythau/llysiau, proteinau, grawn cyflawn, ac ati.)
- dangos un dull cyfathrebu: y dysgwyr i ailadrodd ymadrodd cwrtais, neu nodio i ddangos eu bod yn gwrando.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- golchi dwylo (ymarferol): dilyn y cardiau cyfarwyddiadau camwrthgam a dangos sut i olchi dwylo yn unol â chanllawiau'r GIG
- bwyta'n iach: creu poster sy'n dangos pryd iach i oedolyn gan ddefnyddio categorïau'r Canllaw Bwyta'n Dda
- cyfathrebu: labelu lluniau o ddulliau cyfathrebu ac yna arddangos un dull (er enghraifft, cyfarch, gwrando gweithredol, siarad yn glir).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- dangoswch: dangos sut i olchi dwylo yn unol â chanllawiau'r GIG, gan egluro bob cam ar lafar
- cynllunio pryd iach syml gan ddefnyddio'r templed Plât Bwyta'n Dda
- cynllunio gweithgaredd chwarae rôlsyml sy'n dangos cyfathrebu effeithiol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol (er enghraifft, holi am lesiant, rhoi cyfarwyddyd, dangos gwrando gweithredol).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- creu siart llif a'i ddefnyddio i gyflwyno sut i olchi dwylo yn unol â chanllawiau'r GIG
- chwarae rôl: cynllunio a chyflwyno gweithgaredd chwarae rôl sy'n dangos cyfathrebu effeithiol mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- cynllunio pryd iach, cytbwys i oedolyn gan ddefnyddio'r canllaw Plát Bwyta’n Dda. Cyflwyno'r bwydydd dewisol yn y categorïau maetholion cywir.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu’n uniongyrchol):

- archwilio’r ddarpariaeth a’r gwasanaethau lleol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant er mwyn gwneud cysylltiadau sy'n cryfhau’r ymdeimlad o gynefin
- archwilio cyfleoedd gyrfa o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- rhyngweithio a gwrando'n uniongyrchol ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, a gweithwyr gofal plant proffesiynol, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, er mwyn meithrin gwerthfawrogiad o’u profiadau o weithio yn y sectorau
- datblygu sgiliau cydweithio a gwaith tîm drwy weithio gydag eraill a dysgu oddi wrthynt.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gwelir pa gyfleoedd sydd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol yn Atodiad A. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Uned 3 Gofal Plant

| | |
|---|---|
| ODA | 72 awr |
| Trosolwg o'r uned | Mae gan y sector gofal plant ran hanfodol mewn cefnogi datblygiad plant; mae'r uned hon yn ymwneud â deall gofal plant a datblygu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen ar gyfer darparu cymorth diogel ac effeithiol. Mae'n anelu at adeiladu gwybodaeth am anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a deallusol plant, a sut i ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd bob dydd. Bydd yn canolbwyntio ar ddehongli senarios i nodi gweithgareddau diogel, addas i'w hoedran a chydnabod risgiau. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau ymarferol megis cefnogi chwarae, helpu gyda phrydau bwyd, cyfathrebu'n effeithiol, a chynnal hylendid, gan ddeall rolau, cyfrifoldebau, a ffiniau ym maes gofal plant. |
| Deilliannau Dysgu | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br>DD3.1 gwybod am wahanol rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol ym maes gofal plant mewn lleoliadau gofal plant preifat a rhai a ariennir, a lleoliadau ysgol statudol<br>DD3.2 deall datblygiad plant hyd at 5 oed; gan gynnwys anghenion corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol, cymdeithasol (*PILES*) a'r cerrig milltir disgwyliedig<br>DD3.3 deall sut mae anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn amrywio yn ôl oedran: babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar hyd at 5 oed<br>DD3.4 gallu dangos sut mae oedolion (rhieni/gofalwyr a gweithwyr gofal plant) yn gallu cefnogi anghenion plant<br>DD3.5 gallu dangos arferion diogel wrth gefnogi datblygiad plant<br>DD3.6 gallu cyflawni tasgau gofal plant sylfaenol mewn gweithgareddau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth |
| Crynodeb o'r asesu | Bydd asesiadau'r uned hon yn cael eu cynnal drwy weithgareddau a osodir gan athrawon, gan alluogi dysgwyr i ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn fwy na'r uchafswm o 18 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd asesu fel arfer yn digwydd o fewn yr ystod ddangosol o 14 – 18 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi bras amcan o'r amser a dreuliodd pob dysgwr ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at adnoddau blynyddoedd cynnar priodol sy'n caniatáu iddynt ddangos sgiliau gofal plant ymarferol yn ddiogel ac yn effeithiol.<br>O leiaf, dylai canolfannau ddarparu:<br><br>• sinc neu ardal golchi dwylo gyda deunyddiau hylendid |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | |
|---|---|
| | • dol ymarfer (dol babi neu ddol blynyddoedd cynnar) ar gyfer arddangos arferion gofal megis bwydo neu fynd i'r toiled<br>• detholiad bach o adnoddau chwarae blynyddoedd cynnar, megis blociau, llyfrau, bwyd esgus, deunyddiau gwneud llun neu deganau synhwyraidd<br>• gofod y gellir ei drefnu'n ardal chwarae neu weithgareddau ar gyfer arddangosiadau a chwarae rôl<br>Gall canolfannau ddefnyddio adnoddau go iawn neu rai ffug sy'n efelychu, a dylent ddewis deunyddiau addas i lefel y dysgwyr.<br>Nid oes angen offer gofal plant arbenigol. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br>Sgiliau Bywyd:<br>• Gofalu am eraill<br>• Cymorth cyntaf sylfaenol<br>• Ffordd iach o fyw<br>• Iechyd meddwl a llesiant meddyliol<br>• Diogelwch personol<br>• Gwerthoedd bywyd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu**<br>**Bydd y dysgwr yn:** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 3.1<br>gwybod beth yw rolau a chyfrifoldebau gwahanol weithwyr gofal plant proffesiynol mewn lleoliadau gofal plant preifat a rhai a ariennir, a lleoliadau ysgol statudol | Rolau:<br>Gofal plant preifat ac wedi'i ariannu:<br>• gweithwyr gofal plant<br>• rheolwyr a goruchwylwyr meithrinfa<br>Lleoliadau ysgolion statudol:<br>• cynorthwywyr addysgu<br>• cefnogaeth un-i-un neu gynorthwywyr cymorth dysgu<br>• gweithwyr chwarae.<br><br>Dylai dysgwyr archwilio sut mae'r rolau hyn yn gweithredu o fewn lleoliadau gofal plant preifat a lleoliadau statudol lleol.<br><br>Cyfrifoldebau:<br>Cefnogi anghenion hylendid a gofal corfforol plant:<br>• deall tasgau gofal personol megis bwydo, mynd i'r toiled a golchi dwylo<br>• dilyn arferion hylendid diogel<br>• cynnal iechyd, cysur a llesiant plant fel rhan o gyfrifoldeb proffesiynol.<br><br>Darparu dull plentyn-ganolog: parchu dewisiadau, annog chwarae.<br><br>Arferion diogelu: adnabod arwyddion o niwed, adrodd am bryderon.<br><br>Gwaith tîm a chyfathrebu ag eraill, rhannu gwybodaeth a chefnogi ei gilydd.<br><br>Dilyn polisïau a gweithdrefnau: cyfrinachedd, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb. |
| 3.2<br>deall datblygiad plant hyd at 5 oed; gan gynnwys anghenion corfforol, deallusol, iaith, emosiynol, cymdeithasol (*PILES*) a'r cerrig milltir disgwyliedig. | Cerrig milltir datblygiadol disgwyliedig allweddol pob cam bywyd hyd at 5 oed:<br>• babanod newydd-anedig 0–12 mis: eistedd, cropian, baldorddi, magu cysylltiad â gofalwyr, ymateb i leisiau<br>• plentyn bach:<br>  ◦ 1–2 oed: cerdded, defnyddio geiriau cyntaf, chwarae syml<br>  ◦ 2–3 oed: rhedeg/neidio, brawddegau byr, chwarae dychmygus, dangos empathi cynnar<br>• plant blynyddoedd cynnar:<br>  ◦ 3–4 oed: tynnu llun siapiau syml, siarad yn glir, chwarae cydweithredol<br>  ◦ 4–5 oed: hopian/sgipio, adrodd straeon, ffurfio cyfeillgarwch cynnar.<br><br>Meysydd datblygiad:<br>Datblygiad corfforol: sgiliau echddygol bras (er enghraifft, cerdded, rhedeg, taflu a dal), sgiliau echddygol manwl (er enghraifft, defnyddio pensel, clymu careiau/lasys, codi |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | gwrthrychau bach), symud a chydsymud, twf a chryfder y corff.<br><br>Datblygiad deallusol: meddwl, datrys problemau, datblygiad meddyliol.<br><br>Datblygiad ieithyddol: lleferydd, cyfathrebu, datblygiad geirfa Gymraeg neu Saesneg.<br><br>Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol: chwarae, perthnasoedd a theimladau (empathi), ymlyniad, rheoli emosiynau. |
| 3.3<br>deall sut mae anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn amrywio yn ôl gwahanol oedrannau: babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar hyd at 5 oed. | Anghenion emosiynol: cysur, mynegi emosiwn.<br><br>Anghenion cymdeithasol: trefnau arferol a chwarae, rhannu gemau.<br><br>Ar draws yr ystod oedrannau canlynol:<br>• babanod newydd-anedig 0–12 mis<br>• plentyn bach 1–2 oed<br>• plentyn blynyddoedd cynnar 3–5 oed. |
| 3.4<br>gallu dangos ffyrdd y mae oedolion (rhieni/gofalwyr a gweithwyr gofal plant) yn cefnogi anghenion plant. | Rhieni: cefnogi gofal dyddiol, cymorth emosiynol, amlinelliadau, dysgu yn y cartref.<br><br>Gofalwyr: gwarchodwyr, aelodau o'r teulu, neu nanis – yn cefnogi diogelwch a gofal.<br><br>Gweithwyr gofal plant: gweithwyr proffesiynol hyfforddedig – yn cynllunio gweithgareddau, cefnogi datblygiad. |
| 3.5<br>gallu dangos arferion diogel wrth gefnogi datblygiad plant. | Gweithgareddau priodol i oedran: gweithgareddau addas i wahanol oedrannau, gweithgareddau priodol i gefnogi dysgu.<br><br>Ardaloedd chwarae diogel: nodweddion amgylchedd chwarae neu ddysgu diogel sy'n annog goruchwyliaeth ac ymddygiad diogel.<br><br>Nodi risgiau a pheryglon: peryglon cyffredin mewn lleoliadau gofal plant, nodi risg a strategaethau i leihau risg. |
| 3.6<br>gallu cyflawni tasgau gofal plant sylfaenol mewn gweithgareddau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth. | Cefnogi chwarae: paratoi ardaloedd chwarae diogel, cefnogi plant yn eu chwarae.<br><br>Help gyda phrydau bwyd: trefnu amser byrbrydau, annog dewisiadau bwyd iach, ymarfer safonau hylendid.<br><br>Cyfathrebu'n briodol yn Gymraeg neu Saesneg gyda phlant: defnyddio iaith gadarnhaol a chefnogol, siarad yn glir, gofyn cwestiynau penagored. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| Deilliant Dysgu<br><br>Bydd y dysgwr yn: | Meini Prawf Asesu – gall y dysgwr: | | | | Pwyntiau a ddyfernir |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gefnogaeth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda rhywfaint o gefnogaeth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 heb ddim cefnogaeth o gwbl: (4 pwynt)** | |
| DD3.1<br>gwybod am wahanol rolau a chyfrifoldebau gweithwyr gofal plant proffesiynol mewn lleoliadau gofal plant preifat ac wedi'i ariannu a lleoliadau addysg statudol. | 3.1.1<br>paru lluniau o wahanol rolau gofal plant â'r teitl swydd cywir. | 3.1.1<br>trefnu rolau swyddi yn ôl "rolau meithrin" a "rolau ysgol." | 3.1.1<br>nodi un rôl a geir mewn meithrinfa ac un rôl a geir mewn ysgol, rhoi disgrifiad syml o'r hyn maen nhw'n ei wneud. | 3.1.1<br>rhestru cyfrifoldebau o leiaf dwy o rolau swydd gofal plant mewn lleoliadau preifat a statudol. | /4 |
| | 3.1.2<br>paru lluniau o dasgau hylendid (er enghraifft, brwsio dannedd, golchi dwylo) â'r enwau cywir. | 3.1.2<br>trefnu delweddau yn ôl "gofal personol" ac "nid gofal personol." | 3.1.2<br>nodi sut mae helpu plentyn i fwydo neu ddefnyddio'r toiled yn barchus. | 3.1.2<br>rhoi tair brawddeg fer am arferion hylendid diogel: "rydyn ni'n helpu plant drwy…" | /4 |
| | 3.1.3<br>rhestru tair ffordd o gyfathrebu'n dda mewn meithrinfa. | 3.1.3<br>paru cardiau rôl sy'n nodi â phwy i siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd (er enghraifft: rheolwr, gweithiwr allweddol). | 3.1.3<br>nodi ar daflen waith:<br>• disgrifiad da o waith tîm yw…<br>• rydyn ni'n siarad â'n gilydd oherwydd… | 3.1.3<br>nodi pam mae cyfathrebu clir yn bwysig wrth weithio gydag eraill ym maes gofal plant. | /4 |
| | 3.1.4<br>nodi lluniau hapus/trist sy'n dangos anghenion plentyn yn cael eu bodloni neu beidio. | 3.1.4<br>paru gweithgareddau â dewisiadau/diddordebau plant (er enghraifft, dewis rhwng gwahanol opsiynau chwarae). | 3.1.4<br>nodi sut mae cynnwys dewisiadau plant (er enghraifft, "gadael i blant ddewis stori"). | 3.1.4<br>nodi sut i gynllunio gweithgaredd sy'n rhoi diddordebau ac anghenion y plentyn yn gyntaf. | /4 |
| | 3.1.5<br>nodi pa luniau sy'n dangos sefyllfaoedd diogel a sefyllfaoedd | 3.1.5<br>paru geiriau diogelu â lluniau (gofod diogel, | 3.1.5<br>nodi'r arfer diogelu os oes pryder ynghylch plentyn. | 3.1.5<br>rhestru pa gamau y dylid eu cymryd os oes pryder am ddiogelwch plentyn. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | anniogel. | oedolyn dibynadwy). | | | |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 3.1.6<br>paru symbolau syml â rheolau polisi (er enghraifft, poster golchi dwylo, arwydd cymorth cyntaf). | 3.1.6<br>nodi 2–3 rheol polisi a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth neu'r feithrinfa. | 3.1.6<br>rhestru tri rheswm dros ddilyn rheolau polisi | 3.1.6<br>enwi tri pholisi a sut maen nhw'n helpu i gadw plant a staff yn ddiogel. | /4 |
| DD3.2<br>deall datblygiad plant hyd at 5 oed; gan gynnwys anghenion corfforol, deallusol, iaith, emosiynol, cymdeithasol (*PILES*) a'r cerrig milltir disgwyliedig. | 3.2.1<br>dewis lluniau o blant sy'n datblygu sgiliau newydd (*PILES*) ar gyfer pob grŵp oedran. | 3.2.1<br>amlinellu'r sgiliau mae plant yn eu datblygu (*PILES*) ar gyfer pob grŵp oedran. | 3.2.1<br>cwblhau llinell amser datblygiad plant (*PILES*) sy'n dangos cynnydd ar draws y tri grŵp oedran. | 3.2.1<br>disgrifio'r meysydd datblygiad plant (*PILES*) ar draws y tri grŵp oedran mewn poster i rieni. | /4 |
| | 3.2.2<br>crynhoi cerrig milltir syml babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar. | 3.2.2<br>dewis delweddau o gerrig milltir ym mhob grŵp oedran a disgrifio pa sgil a ddangosir. | 3.2.2<br>amlinellu cerrig milltir sylfaenol babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar. | 3.2.2<br>esbonio cerrig milltir disgwyliedig babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar. | /4 |
| DD3.3<br>deall sut mae anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn amrywio yn ôl gwahanol oedrannau: babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar hyd at 5 oed. | 3.3.1<br>dewis lluniau sy'n dangos sut mae anghenion emosiynol plant ym mhob grŵp oedran yn cael eu bodloni. | 3.3.1<br>crynhoi anghenion emosiynol babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar. | 3.3.1<br>cwblhau taflen ffeithiau syml sy'n rhestru anghenion emosiynol plant ym mhob oedran. | 3.3.1<br>disgrifio sut mae lleoliad gofal plant yn bodloni anghenion emosiynol plant ym mhob grŵp oedran. | /4 |
| | 3.3.2<br>dewis delweddau o anghenion cymdeithasol sy'n cael eu bodloni ar gyfer pob grŵp oedran. | 3.3.2<br>dewis gweithgareddau sy'n cefnogi anghenion cymdeithasol plant ym mhob oedran. | 3.3.2<br>crynhoi anghenion cymdeithasol plant ym mhob oedran. | 3.3.2<br>cwblhau tabl sy'n dangos anghenion cymdeithasol plant a'r gwahaniaethau rhwng pob grŵp oedran. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD3.4<br>gallu dangos ffyrdd y mae oedolion (rhieni/gofalwyr a gweithwyr gofal plant) yn cefnogi anghenion plant. | 3.4.1<br>cyflawni un weithred mae rhieni'n ei gwneud er mwyn bodloni anghenion plentyn. | 3.4.1<br>cyflawni dwy weithred mae rhieni'n eu gwneud er mwyn bodloni anghenion plentyn. | 3.4.1<br>cynllunio chwarae rôl sy'n dangos sut y gallai rhieni gefnogi anghenion plentyn. | 3.4.1<br>dylunio a chyflwyno taflen i rieni o'r enw 'sut i helpu i fodloni anghenion eich plentyn'. | /4 |
| | 3.4.2<br>cynhyrchu llun sy'n dangos gweithgaredd i gefnogi anghenion plant mewn lleoliad meithrin. | 3.4.2<br>cynllunio gweithgaredd i gefnogi anghenion plant mewn lleoliad meithrin. | 3.4.2<br>cyflwyno enghraifft o weithgaredd addas i fodloni anghenion plentyn ar gyfer gweithwyr gofal plant mewn lleoliad meithrin. | 3.4.2<br>creu taflen wybodaeth o weithgareddau addas i fodloni anghenion plant ar gyfer gweithwyr gofal plant mewn lleoliad meithrin. | /4 |
| DD3.5<br>gallu dangos arferion diogel wrth gefnogi datblygiad plant. | 3.5.1<br>dangos sut mae plant o wahanol oedrannau yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau priodol yn ddiogel. | 3.5.1<br>gwneud olwyn cynllunio gweithgareddau a'i llenwi â:<br>• gweithgaredd diogel<br>• pam mae'n dda/diogel<br>• beth all y plentyn ei ddysgu. | 3.5.1<br>dylunio gweithgaredd byr ar gyfer plentyn gan gynnwys:<br>• nod y gweithgaredd<br>• yr adnoddau sydd eu hangen<br>• sut i gadw'r plentyn yn ddiogel<br>• beth all y plentyn ei ddysgu. | 3.5.1<br>dylunio llyfryn gweithgareddau dysgu diogel ar gyfer plentyn gan gynnwys:<br>• syniad am weithgaredd<br>• pwrpas datblygiadol (*PILES*)<br>• ystyriaethau diogelwch. | /4 |
| | 3.5.2<br>dangos sut i adnabod problemau o ddelweddau 'diogel' neu '**ddim** yn ddiogel'. | 3.5.2<br>dangos sut i adnabod a datrys problemau o ddelweddau 'diogel' neu '**ddim** yn ddiogel'. | 3.5.2<br>creu rhestr gwirio diogelwch o'r hyn ddylai fod mewn ardal chwarae ddiogel, o ran diogelwch. | 3.5.2<br>cyflwyno asesiad risg bach, i nodi peryglon cyffredin o fewn delwedd o ardal chwarae, gan gynnwys:<br>• peryglon<br>• pwy allai gael niwed<br>• lefel y risg<br>• lleihau risg. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DD3.6<br>gallu cyflawni tasgau gofal plant sylfaenol mewn gweithgareddau ymarferol yn yr ystafell ddosbarth. | 3.6.1<br>dangos i blentyn sut i olchi dwylo yn effeithiol cyn pryd o fwyd. | 3.6.1<br>gosod bwrdd yn barod ar gyfer amser bwyd plentyn. | 3.6.1<br>cynllunio byrbryd iach, addas i blentyn. | 3.6.1<br>gwneud byrbryd iach, addas i blentyn. | /4 |
| | 3.6.2<br>defnyddio mynegiant wyneb ac ystumiau i ddangos mathau o deimladau a chyfathrebu. | 3.6.2<br>dangos y defnydd o ymadroddion byr syml wrth gyfathrebu'n gadarnhaol â phlant. | 3.6.2<br>dangos sgiliau cyfathrebu cadarnhaol wrth ddefnyddio cwestiynau gyda phlant. | 3.6.2<br>dangos sgiliau cyfathrebu cadarnhaol gan ddefnyddio cwestiynau agored, canmoliaeth a ffordd ddigynnwrf gyda phlant. | /4 |
| | 3.6.3<br>dangos sut i annog canmoliaeth mewn plant i gefnogi cyfathrebu cadarnhaol yn eu chwarae a'u dysgu. | 3.6.3<br>creu gweithgaredd chwarae rôl er mwyn datblygu sgiliau cyfathrebu ymysg plant. | 3.6.3<br>creu gweithgaredd chwarae sy'n addas i blant chwarae gyda'i gilydd a datblygu sgiliau cyfathrebu. | 3.6.3<br>creu gweithgaredd chwarae diogel sy'n dangos ystyriaethau diogelwch ac adnoddau. | /4 |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a ddyfarnwyd** | | x/68 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## Enghreifftiau o dasgau

### DD3.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- gweithgaredd paru: paru lluniau o rolau swyddi ym maes gofal plant (er enghraifft, cynorthwyydd addysgu, gweithiwr meithrin, gweithiwr chwarae) â theitlau'r swyddi
- paru tasgau hylendid: paru lluniau o dasgau hylendid (er enghraifft, golchi dwylo, brwsio dannedd) â'r enwau cywir
- adnabyddiaeth o gyfathrebu: rhestru ffyrdd syml o gyfathrebu â phlant ac oedolion mewn meithrinfa (er enghraifft, gwenu, defnyddio enwau).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- trefnu rolau: trefnu cardiau rôl swyddi yn ôl "rolau meithrin" a "rolau ysgol"
- didoli gofal personol: trefnu delweddau o anghenion gofal amrywiol sy'n ymwneud â nodi anghenion gofal personol mewn lleoliad gofal plant
- paru diogelu: paru geiriau diogelu allweddol (er enghraifft, "gofod diogel", "oedolyn dibynadwy") â lluniau
- adnabod rheolau polisi: nodi 2-3 rheol polisi a ddefnyddir mewn ystafell ddosbarth neu feithrinfa
- paru dewisiadau: paru amrywiaeth o weithgareddau â dewisiadau a diddordebau plant, megis cornel chwarae rôl, neu weithgaredd adeiladu.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- tasg ysgrifenedig fer: disgrifio cyfrifoldebau dwy rôl gofal plant (un rôl feithrinfa, un rôl ysgol)
- adnabod rôl: enwi un rôl mewn meithrinfa ac un rôl mewn ysgol, gyda disgrifiad byr o'r hyn y mae pob rôl yn ei wneud
- adnabod tasg gofal: nodi sut i helpu plentyn fwydo a mynd i'r toiled
- ymateb o ran diogelu: darllen astudiaeth achos fer a nodi'r arfer diogel sydd ei angen os oes pryder yn ymwneud â phlentyn
- rhestru rhesymeg polisi: rhestru rhesymau pam mae dilyn polisïau yn cadw staff a phlant yn ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- esboniad ysgrifenedig: ysgrifennu brawddegau byr sy'n dangos gwybodaeth am arferion diogel mewn lleoliad gofal plant
- camau gweithredu diogelu: rhestru'r camau gweithredu priodol os oes pryder o ran diogelu
- enwi polisi: enwi polisïau sy'n helpu i gadw plant a staff yn ddiogel ac esbonio eu pwrpas
- cynllunio gweithgareddau: cynllunio gweithgaredd priodol sy'n bodloni diddordebau ac anghenion plentyn.

### DD3.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- dewis lluniau: dewis delweddau sy'n dangos plant yn datblygu sgiliau *PILES* newydd ar gyfer pob grŵp oedran
- gweithgaredd cywir/anghywir: nodi datganiadau cywir am gerrig milltir datblygiadol disgwyliedig

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

- tasg crynhoi: rhoi crynodeb syml o gerrig milltir grŵp oedran penodol (babanod newydd-anedig, plant bach, neu blant blynyddoedd cynnar).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):
- adnabyddiaeth o *PILES*: nodi'r ardal *PILES* a ddangosir mewn ystod o ddelweddau
- ysgrifennu amlinelliad: darparu amlinelliad byr o sgiliau *PILES* a ddatblygir ym mhob grŵp oedran
- gweithgaredd enwi: enwi cerrig milltir sylfaenol gwahanol grwpiau oedran.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- gweithgaredd llinell amser: cwblhau llinell amser sy'n dangos dilyniant datblygiadol ar draws grwpiau oedran
- amlinelliad ysgrifenedig: amlinellu'r cerrig milltir disgwyliedig a ddisgwylir gan blant ym mhob cam
- enghreifftiau o gerrig milltir: rhoi enghreifftiau syml o gerrig milltir y tri grŵp oedran.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- disgrifiad ysgrifenedig: disgrifio meysydd datblygiadol plant (*PILES)* ym mhob grŵp oedran
- creu poster: creu poster sy'n dangos datblygiad *PILES* y tri grŵp oedran
- esboniad llafar: esbonio cerrig milltir disgwyliedig babanod newydd-anedig, plant bach, a phlant blynyddoedd cynnar.

DD3.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):
- dewis anghenion emosiynol: dewis lluniau o fodloni anghenion emosiynol (er enghraifft, cysuro babi sy'n crio)
- dewis anghenion cymdeithasol: dewis delweddau o fodloni anghenion cymdeithasol (er enghraifft, trefnau arferol, cymryd tro)
- cwblhau brawddegau: rhoi ateb cywir i lenwi bylchau yn seiliedig ar wahanol anghenion plant, cwblhau brawddegau syml megis: "Mae angen i oedolion ___ babanod", "Mae plant bach yn dysgu rhannu teganau gyda ___", "Mae plant blynyddoedd cynnar yn mwynhau chwarae ___”.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):
- crynodeb emosiynol: ysgrifennu crynodeb byr o anghenion emosiynol pob grŵp oedran
- tabl anghenion cymdeithasol: cwblhau tabl sy'n dangos anghenion cymdeithasol pob grŵp oedran
- dewis gweithgareddau: dewis gweithgareddau priodol ar gyfer pob grŵp oedran i gefnogi anghenion cymdeithasol (er enghraifft, gêm pî-bô i fabanod, gemau cymryd tro i blant bach, chwarae grŵp i blant blynyddoedd cynnar).

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- taflen ffeithiau: creu taflen ffeithiau sylfaenol o anghenion emosiynol pob grŵp oedran
- crynodeb cymdeithasol: crynhoi anghenion cymdeithasol babanod newydd-anedig, plant bach a phlant blynyddoedd cynnar
- map meddwl: creu map meddwl gydag enghreifftiau o sut mae anghenion cymdeithasol ac emosiynol yn cael eu cefnogi ar wahanol oedrannau.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- disgrifiad: y dysgwyr i ddisgrifio sut mae lleoliad gofal plant yn bodloni anghenion emosiynol (mynegiant emosiynol, cysurus) ym mhob grŵp oedran
- tasg blog: creu blog sy'n esbonio anghenion cymdeithasol pob oedran a sut mae lleoliadau yn eu cefnogi
- esboniad: y dysgwyr i esbonio pam mae bodloni anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn bwysig ym mhob cam oedran datblygiadol.

## DD3.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- gweithgaredd ymarferol: defnyddio dol i ddangos un weithred mae rhieni yn ei wneud i fodloni anghenion plentyn
- chwarae rôl: cymryd rhan mewn chwarae rôl syml sy'n dangos sut i gefnogi anghenion plentyn mewn lleoliad meithrin.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- gweithgaredd ymarferol: cyflawni dwy weithred wahanol mae rhieni yn eu gwneud i fodloni anghenion plentyn
- arddangosiad: dangos dwy enghraifft o sut i ofalu am blentyn a bodloni ei anghenion
- cynllunio: cynllunio gweithgaredd syml i fodloni anghenion plant mewn lleoliad meithrin.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):

- chwarae rôl: cyflwyno senario sy'n dangos sut y gall rhieni gefnogi anghenion plentyn
- cynllunio trefn arferol: cynllunio trefn ddyddiol syml sy'n dangos sut i fodloni anghenion plentyn mewn lleoliad meithrin
- cyflwyniad: cynllunio a chyflwyno enghraifft o weithgaredd addas i weithwyr gofal plant.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):

- taflen i rieni: creu taflen sy'n esbonio sut y gall rhieni fodloni anghenion plant
- taflen ffeithiau: cynhyrchu taflen ffeithiau sy'n amlinellu'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni anghenion gofal plant
- taflen gweithgareddau: creu taflen wybodaeth ar gyfer gweithwyr gofal plant sy'n dangos gweithgareddau addas i fodloni anghenion plant.

## DD3.5

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):

- paru: paru amrywiaeth o weithgareddau addas i blant â ffyrdd y gall plant gymryd rhan ynddynt
- gweithgaredd sylwi: edrych ar luniau a sylwi ar broblemau neu bethau a allai ddigwydd mewn sefyllfaoedd nad ydynt efallai yn ddiogel
- nodi peryglon: tynnu sylw at sefyllfaoedd sy'n peri risg neu berygl i blant.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):

- olwyn gynllunio: creu olwyn gynllunio syml sy'n dangos pwyntiau allweddol ar gyfer gweithgareddau diogel
- sylwi ar beryglon: nodi elfennau diogel/ddim yn ddiogel o ran sut maeystafelloedd wedi'u gosod

© WJEC CBAC Ltd. 2026

DRAFT

- arddangosiad o berygl: dangos enghreifftiau o risgiau a pheryglon mewn amgylcheddau gofal plant.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- creu amgylchedd: dylunio ardal chwarae fach sy'n addas i blant
- cynllunio gweithgareddau: cynllunio gweithgaredd diogel ar gyfer grŵp oedran penodol
- senario o berygl: defnyddio senario i esbonio beth allai fynd o'i le a sut i'w wneud yn ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- llyfryn gweithgareddau: dylunio llyfryn o weithgareddau dysgu diogel i blant
- asesu risg: cyflwyno asesiad risg byr sy'n nodi peryglon a ffyrdd o leihau niwed
- creu poster: creu poster diogelwch sy'n dangos risgiau a strategaethau allweddol er mwyn lleihau niwed.

### DD3.6

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda lefel uchel o gefnogaeth):
- arddangos sut i olchi dwylo: dangos i blentyn sut i olchi dwylo'n ddiogel
- cyfathrebu: defnyddio canmoliaeth ac ymadroddion cadarnhaol syml mewn chwarae rôl
- mynegiant: defnyddio symudiadau ac ystumiau wyneb priodol i ddangos teimladau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda lefel gymedrol o gefnogaeth):
- gweithgaredd chwarae rôl: chwarae rôl senario cyfathrebu syml rhwng gofalwr a phlentyn
- paratoi prydau: paratoi bwrdd ar gyfer pryd o fwyd i blentyn, gan ystyried oedran a gallu
- cyfathrebu: defnyddio brawddegau cadarnhaol, canmoliaeth, ac iaith y corff gefnogol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiafswm posibl o gefnogaeth):
- ardal chwarae: creu ardal chwarae fach sy'n addas ac yn ddiogel i blentyn
- cyfathrebu ar sail cwestiynau: dangos sut i gyfathrebu gan ddefnyddio cwestiynau syml
- cynllunio byrbrydau: cynllunio byrbryd iach, addas i blentyn.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (dim cefnogaeth o gwbl):
- cynllunio ardaloedd chwarae: cynllunio ardal chwarae ddiogel gydag adnoddau addas
- paratoi bocs bwyd: gwneud bocs bwyd iach, maethlon i blentyn

cyfathrebu: dangos cyfathrebu digynnwrf, cadarnhaol gan ddefnyddio cwestiynau agored a chanmoliaeth.

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd y profiadau yn cael eu hasesu’n uniongyrchol):

- archwilio’r ddarpariaeth a’r gwasanaethau lleol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant er mwyn gwneud cysylltiadau sy'n cryfhau’r ymdeimlad o gynefin
- archwilio cyfleoedd gyrfa o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

© WJEC CBAC Ltd. 2026

- rhyngweithio a gwrando'n uniongyrchol ar weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, a gweithwyr gofal plant proffesiynol, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, er mwyn meithrin gwerthfawrogiad o'u profiadau o weithio yn y sectorau
- datblygu sgiliau cydweithio a gwaith tîm drwy weithio gydag eraill a dysgu oddi wrthynt.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gwelir pa gyfleoedd sydd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol yn Atodiad A. Mae gwybodaeth bellach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 3. Asesu

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu drwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei hasesu'n fewnol a sicrhau ei hansawdd yn allanol drwy broses o gymedroli allanol. Mae gwybodaeth am y broses gymedroli i'w chael yn y ddogfen Asesu Mewnol: Canllaw i Ganolfannau, y gellir ei gyrchu o adran weinyddu gwefan CBAC.

Dim ond ar ôl i'r addysgu a'r dysgu perthnasol gael ei gwblhau y dylid cynnal asesiad. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu hasesu'n barhaus nac yn gynamserol.

## 3.1. Tasgau asesu

Mae gan athrawon hyblygrwydd i ddylunio tasgau asesu a gweithgareddau sy'n bodloni anghenion eu dysgwyr orau. Mae'r dull hwn yn caniatáu iddynt deilwra asesiadau yn ôl diddordeb, gallu a chyd-destun pob grŵp dysgwr. Mae hefyd yn gyfle i athrawon fod yn greadigol a chynnig ystod o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rhaid i dasgau asesu alluogi dysgwyr i fodloni pob maen prawf asesu ar gyfer yr uned ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad. Mae pob maen prawf asesu wedi'i strwythuro ar draws pedair lefel, o Mynediad 1 i Lefel 1, a gall cyflawniad dysgwr amrywio ar draws gwahanol dasgau o fewn yr un uned. Mae'r dull hwn yn cydnabod cynnydd ym mhob cam ac yn gwerthfawrogi cyflawniad unigol, datblygiad sgiliau, a thwf.

Er mwyn cefnogi canolfannau i ddylunio asesiadau addas, darperir tasgau enghreifftiol ar ôl pob uned o fewn y fanyleb hon. Er bod yr enghreifftiau hyn yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob deilliant dysgu unigol, gall athrawon ddyfeisio tasgau sy'n rhychwantu deilliannau dysgu lluosog, ar yr amod eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos cyflawniad yr holl feini prawf asesu perthnasol ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad.

## 3.2. Hyd yr asesiad

Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw hyd y gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm a nodir yng nghrynodeb pob un uned. Bwriadwyd hyn er mwyn cefnogi cymhariaeth ar draws canolfannau a chaniatáu addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a natur tasgau a ddyfeisiwyd gan ganolfannau.

I fwyafrif y dysgwyr, dylai gweithgareddau asesu fel arfer ddod o fewn amser dangosol pob uned, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gor-asesu.

Rhaid i ganolfannau nodi'n fras faint o amser a dreuliwyd ar weithgareddau asesu ar gyfer pob dysgwr a phob uned. Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 3.3. Gofynion tystiolaeth

Gall dysgwyr ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu drwy amrywiaeth o fathau gwahanol o dystiolaeth, gan gynnwys:

- arsylwadau athrawon – arsylwi'r dysgwr yn cyflawni tasg neu weithgaredd yn uniongyrchol
- aseiniadau neu dasgau ysgrifenedig – ymatebion ysgrifenedig strwythuredig i dasgau wedi'u gosod, sy'n addas i lefel y dysgwr
- allbynnau creadigol – gwaith celf, modelau, cyfryngau digidol, neu gynnyrch creadigol arall sy'n arddangos sgiliau cymhwysol
- enghreifftiau o waith grŵp – cyfraniadau at dasgau grŵp, gyda nodiadau arsylwi neu fyfyrdodau dysgwyr i'w cefnogi
- datganiad y dysgwr – cyfrif ysgrifenedig neu wedi'i recordio gan y dysgwr yn myfyrio ar yr hyn a wnaeth a'r hyn a ddysgwyd
- asesiad cymheiriaid neu hunanasesiad – cyfleoedd strwythuredig i ddysgwyr werthuso eu gwaith eu hunain neu waith eraill (gydag arweiniad)
- tystiolaeth ffotograffig – delweddau sy'n dangos gwaith neu gyfranogiad y dysgwr i weithgaredd, gyda chyd-destun yn gynwysedig
- llyfrau log neu lyfrau gwaith ymarferol – cofnodion o weithgareddau a gwblhawyd dros amser, gan gynnwys myfyrdodau ac adborth
- gwaith project – tasgau estynedig neu ymchwiliadau sy'n dangos cynllunio, gweithredu, ac adolygu
- gweithgareddau sy'n efelychu – tasgau a gyflawnir mewn amgylchedd rheoledig sy'n dynwared senarios byd go iawn
- ateb cwestiynau athro/aseswr – ymateb i gwestiynau strwythuredig, naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar, i gadarnhau dealltwriaeth
- recordiadau fideo/sain – recordiadau o'r dysgwr yn cyflawni tasg, yn rhoi cyflwyniad, neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth
- tystiolaeth gan dyst – datganiadau gan athrawon, staff cymorth, neu eraill sydd wedi arsylwi perfformiad y dysgwr.

Dylid llunio tystiolaeth dysgwyr ar gyfer pob uned mewn portffolio ar gyfer asesu mewnol a chymedroli allanol. Ystyr y term 'portffolio' yw casgliad strwythuredig o dystiolaeth.

Rhaid cael Cofnod Asesu Dysgwr wedi'i gwblhau yngyd â'r portffolio, y gellir ei gyrchu o dudalen cymwysterau gwefan CBAC (ychwanegir dolen pan fydd y dudalen ar gael). Rhaid defnyddio'r Cofnod Asesu Dysgwr hwn i gofnodi:

- y gweithgareddau asesu y mae dysgwyr wedi'u cwblhau (yr hyn a wnaed)
- lleoliad y dystiolaeth
- sylwadau'r athro
- lefel y gefnogaeth a'r arweiniad a gafodd y dysgwyr
- bras amcan o faint o amser y mae'r dysgwr wedi'i dreulio ar asesiad
- pa feini prawf asesu a fodlonwyd gan y dysgwr
- y radd a ddyfarnwyd a chyfanswm nifer cyffredinol y meini prawf asesu a gyflawnwyd ar neu'n uwch na'r radd a ddyfarnwyd.

DRAFT

Rhaid cyflwyno pob tystiolaeth yn ddigidol. Pan fydd dysgwyr yn cynhyrchu gwaith papur neu dystiolaeth ffisegol, dylid sganio, tynnu llun neu ffilmio'r rhain er mwyn gallu cyflwyno fersiwn ddigidol glir. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gyflwyno yn y ddogfen e-gyflwyno: Uwchlwytho IAMIS (System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol) – Canllawiau Pwnc, y gellir ei gweld o'r adran gweinyddu ar wefan CBAC.

## 3.4 Cefnogaeth ac arweiniad

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth iddynt adeiladu eu portffolio. Dylai cefnogaeth adlewyrchu'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni.

- Bydd ar ddysgwyr Mynediad 1 angen lefel uchel o gefnogaeth, gan gynnwys cymorth llafar, gweledol ac ymarferol, defnyddio symbolau, neu dechnoleg gynorthwyol. Dylai casglu tystiolaeth a thasgau fod wedi'u strwythuro'n fanwl er mwyn galluogi cyfranogiad a chyflawniad ystyrlon drwy ymgysylltiad â chefnogaeth.
- Dylai dysgwyr Mynediad 2 ddangos eu bod yn dechrau dod yn annibynnol ond efallai y byddant angen awgrymiadau, cwestiynau dan arweiniad neu dempledi patrwm ar gyfer cynllunio, trefnu a myfyrio ar eu gwaith.
- Disgwylir i ddysgwyr Mynediad 3 weithio heb fawr ddim cefnogaeth, gyda dim ond arweiniad achlysurol yn unig i gadarnhau dealltwriaeth neu adolygu cynnydd.
- Dylai dysgwyr Lefel 1 weithio'n annibynnol ond gan barhau i dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo. Gall athrawon a thiwtoriaid gynnig cyngor ar gynllunio a strwythuro eu hatebion, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth a chyflwyno tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol. Hefyd gellir cynorthwyo drwy egluro cyfarwyddiadau, ysgogi myfyrio neu helpu dysgwyr i sylweddoli beth yw'r camau nesaf, heb gwblhau'r gwaith ar eu rhan.

Mae'r model cymorth graddedig hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r lefelau.

## 3.5 Goruchwylio a dilysu

Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan athro wrth gwblhau gweithgareddau asesu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

Cydweithio: caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hynny wedi'i ganiatáu. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro a'r y dysgwr.

## 3.6 Marcio (dyfarniadau asesu)

Er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd mewn asesu, rhaid i athro neu aseswr dynodedig gydag arbenigedd pwnc priodol gwblhau'r holl farcio.

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Rhaid i athrawon ac aseswyr sicrhau bod:

- dyfarniad dim ond yn digwydd yn erbyn y meini prawf asesu, nid yn seiliedig ar argraffiadau cyffredinol nac ymdrech y dysgwr
- tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei hanodi'n glir er mwyn dangos sut mae'n bodloni meini prawf penodol
- tystiolaeth o berfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau neu arddangosiadau ymarferol) yn cael ei dogfennu gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol, gyda pha feini prawf sydd wedi'u bodloni ac ar ba lefel wedi'u nodi'n glir
- yr holl dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir, gyda digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu
- cofnodion arsylwi, os ydynt yn cael eu defnyddio, yn cynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

Mae pob deilliant dysgu yn cael ei gefnogi gan bedwar band perfformiad gwahanol o feini prawf asesu, wedi'u cynllunio i adlewyrchu sbectrwm eang o alluoedd dysgwr. Cydnabyddir y gall perfformiad dysgwr amrywio ar draws gwahanol ddeilliannau dysgu o fewn yr un uned.

Mae gradd gyffredinol yr uned a gyflawnir gan y dysgwr yn cael ei phennu drwy'r rheolau graddio a amlinellir yn Adran 4.3 Graddio.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y dysgwr gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y pecyn asesu.

Pan fo perfformiad yn cael ei arsylwi gan rywun heblaw yr athro, rhaid cwblhau datganiad tyst. Yr athro sy'n gyfrifol am ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr neu'r tyst. Gall datganiadau tyst wedi'u dilysu gyfrannu at y dystiolaeth asesu gyffredinol, a rhaid cynnwys dogfennaeth dilysu.

Darperir pro forma safonedig ar gyfer cofnodion tystion ac arsylwadau. Dylid rhoi copi o'r pro forma i ddysgwyr ymlaen llaw er mwyn cefnogi tryloywder a chysondeb.

## 3.7 Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w hailasesu cyn cyflwyno'r marciau terfynol i'w cymedroli. Ailgyflwyno yw enw'r broses hon.

Gall dysgwyr ailgyflwyno er mwyn:

- ymdrin â thystiolaeth sydd wedi'i hepgor neu dystiolaeth anghyflawn ar gyfer y lefel gyfredol.
- ceisio cyflawni meini prawf asesu ychwanegol neu lefel uwch (er enghraifft, symud ymlaen o Mynediad 2 i Mynediad 3 neu Lefel 1).

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol i allu caniatáu digon o amser i gynnwys y cyfnod ailgyflwyno hwn, lle bo angen gwneud hynny, cyn y cymedroli allanol.

Rhaid i unrhyw adborth a dderbynnir gan ddysgwyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- nodi pa feini prawf asesu sydd heb eu bodloni ganddynt a/neu gadarnhau'r lefel sydd wedi'i chyflawni hyd yn hyn
- osgoi rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i fodloni meini prawf lefel uwch
- gael ei ddogfennu a bod ar gael i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

Ni ddylai athrawon:

- ganiatáu nifer o ailgyflwyniadau ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- ganiatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei asesu.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth. Dylent ganolbwyntio ar y meysydd lle maent yn anelu at wella neu symud ymlaen yn unig.

Ni ddylai'r amser a ganiateir ar gyfer ailgyflwyno fod yn hwy na'r cyfanswm amser a ddarparwyd ar gyfer cynhyrchu'r dystiolaeth gychwynnol.

Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau er mwyn darparu llwybr archwilio clir, gan gynnwys lefel wreiddiol y dysgwr ac unrhyw ailgyflwyniad. Dim ond y dystiolaeth derfynol a'r penderfyniadau asesu sydd angen eu cyflwyno i'w cymedroli'n allanol.

Unwaith y bydd penderfyniadau asesu wedi'u cyflwyno i'w cymedroli, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r dystiolaeth. Un cyfle sydd gan ddysgwyr i ailsefyll asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol (gweler adran 4.4).

## 3.8 Camymddwyn

Cyn dechrau’r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae’n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o’r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# 4 Gwybodaeth dechnegol

## 4.1 Cofrestru ar gyfer unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd cymedroli allanol Uned 1 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2028, ac ym mhob cyfres haf wedi hynny.

Bydd cymedroli allanol Unedau 2 a 3 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2029, ac ym mhob cyfres haf wedi hynny.

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| **Uned** | | **Codau Cofrestru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| Uned 1 | Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant a Diogelu Sylfaenol | | |
| Uned 2 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion | | |
| Uned 3 | Gofal Plant | | |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2 Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy’r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | | |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

## 4.3 Graddio ac adrodd yn ôl

Cofnodir cymwysterau Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith ar raddfa pedwar pwynt Mynediad 1 i Lefel 1, a Lefel 1 yw'r radd uchaf.

### Graddau unedau

Dyfernir gradd grynodol i ddysgwyr ar gyfer pob uned a bennir gan gyfanswm y pwyntiau y mae'r dysgwr wedi'u cyflawni o fewn yr uned honno.

Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

I gael Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 20% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 40% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 60% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

I gael Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 80% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Mae'r tabl isod yn dangos lleiafswm y pwyntiau y mae'n rhaid i ddysgwr eu cyflawni i gael pob gradd uned.

| | Uchafswm Pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 52 | 10 | 21 | 31 | 42 |
| **Uned 2** | 68 | 14 | 27 | 41 | 54 |
| **Uned 3** | 68 | 14 | 27 | 41 | 54 |

Bydd cyflawniad uned ymgeiswyr nad ydynt yn cyflawni lleiafswm y meini prawf asesu i gael dyfarniad Mynediad 1 yn cael eu dangos fel annosbarthedig (U).

### Gradd y cymhwyster

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar y pwyntiau cyffredinol a gyflawnir gan y dysgwr ym mhob uned.

I gael Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 20% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

I gael Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 40% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

I gael Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 60% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael

I gael Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd gyflawni 80% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

DRAFT

Mae'r tabl isod yn dangos lleiafswm y pwyntiau y mae'n rhaid i ddysgwr eu cyflawni i gael pob gradd cymhwyster.

| | Uchafswm Pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 120 | 24 | 48 | 72 | 96 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o farciau i ennill Llwyddiant Mynediad 1, yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4 Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned unwaith (dau gynnig i gyd). Bydd y radd uchaf a gyflawnwyd yn y ddwy ymgais yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar ganlyniad terfynol y cymhwyster.

Wrth ailsefyll:

- Gall dysgwyr ailgyflwyno gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon sicrhau bod tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiedig yn cael ei adnabod yn glir
- os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais
- os bydd dysgwr yn cyflwyno tystiolaeth ond nad yw'n bodloni unrhyw feini prawf asesu, bydd hyn yn cyfrif fel ymgais
- pan fo'r cymhwyster yn cynnwys unedau lluosog, bydd tystiolaeth a phenderfyniadau o unedau eraill yn cael eu cario ymlaen, ar yr amod nad yw'r dysgwr wedi mynd heibio uchafswm ymdrechion unrhyw uned
- os bydd ymgeisydd yn mynd heibio uchafswm y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw asesiad, yna bydd gofyn iddynt ail-wneud y cymhwyster yn llawn.

## 4.5 Ail-wneud y cymhwyster

Os yw ymgeisydd yn dychwelyd i uned am y trydydd tro, rhaid iddynt ddychwelyd ac ail-wneud pob un o'r unedau.

Rhaid i'r dysgwr gynhyrchu portffolio newydd o dystiolaeth. Ni all dysgwyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol; rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei chynhyrchu o'r newydd ar gyfer ailsefyll. Pan fo canolfannau'n cynhyrchu cyd-destun ar gyfer asesu, dylid defnyddio cyd-destun newydd.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob uned. Ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd/graddau newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | DD1.1. | - | DD3.1 |
| Cynaliadwyedd | - | - | - |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | DD1.4 | DD2.1 | - |
| Addysg Hawliau Dynol | DD1.3 | DD2.1 | DD3.1, DD3.2 |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | DD1.3 | DD2.2, DD2.3 | DD3.1 |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | | |
| Gwrando | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Darllen | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Siarad | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Ysgrifennu | Pob adran | Pob adran | Pob adran |

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | - | - | DD3.2 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | - | - | DD3.2 |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | - | - | DD3.6 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | - | - | - |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | - | - | - |
| Rhyngweithio a Chydweithio | - | - | - |
| Cynhyrchu | Pob adran | Pob adran | Pob adran |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | - | - | - |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | DD1.2 | - | DD3.6 |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | - | DD2.4, DD2.5 | DD3.1, DD3.2 |
| Cynllunio a Threfnu | - | DD2.5 | DD3.2, DD3.3, DD3.4, DD3.6 |
| Effeithiolrwydd Personol | DD1.3, DD1.4 | DD2.2, DD2.3, DD2.5 | DD3.5 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd. 2026

FOR CENTRES IN WALES:
www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000